# Adroddiad stopio a chwilio cenedlaethol

**Ebrill 2022**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 4
   1.1 Defnydd stopio a chwilio ... 5
2. Annog dysgu a gwelliant ... 5
   2.1 Sail dystiolaeth yr adroddiad hwn ... 6
   2.2 Pwerau i gyhoeddi argymhellion dysgu ... 7
3. Ein dull o gyhoeddi'r argymhellion dysgu hyn ... 7
4. Cyfreithlondeb – dibynadwyedd, ansawdd, a phenodolrwydd cudd-wybodaeth ... 8
   4.1 Argymhelliad 1: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona ... 12
   4.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 12
5. Cyfreithlondeb - chwiliadau cyffuriau ... 13
   5.1 Argymhelliad 2: i'r Swyddfa Gartref ... 14
   5.2 Argymhelliad 3: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 14
   5.3 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 14
6. Ansawdd a diogelwch y cyfarfyddiad ... 14
   6.1 Cyfathrebu a dad-ddwysáu ... 15
   6.2 Dad-ddwysáu – herio ymddygiad amhriodol ... 18
   6.3 Dod â'r cyfarfyddiad i ben ... 19
   6.4 Argymhelliad 4: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona ... 20
   6.5 Argymhelliad 5: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona ... 21
   6.6 Argymhelliad 6: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 21
   6.7 Argymhelliad 7: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 21
   6.8 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 21
7. Defnydd o rym yn ystod stopio a chwilio ... 22
   7.1 Argymhelliad 8: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona ... 24
   7.2 Argymhelliad 9: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 24
   7.3 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 24
8. Cofnodi data - pwy sy'n cael grym wedi'u defnyddio arnynt pan gaiff eu stopio a'u chwilio? ... 24
   8.1 Argymhelliad 10: i'r Swyddfa Gartref ... 26
   8.2 Argymhelliad 11: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 26
9. Cofnodi data – stopio cerbydau ... 26
   9.1 Argymhelliad 12: i'r Swyddfa Gartref ... 28
10. Fideo a wisgir ar y corff ... 28
   10.1 Argymhelliad 13: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 30
   10.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 30

11. Monitro a goruchwylio mewnol ... 30
11.1 Argymhelliad 14: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 32
11.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 32
12. Craffu allanol ... 32
12.1 Argymhelliad 15: i'r NPCC ... 34
12.2 Argymhelliad 16: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona ... 34
12.3 Argymhelliad 17: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ... 35
12.4 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 35
13. Trawma ... 35
13.1 Argymhelliad 18: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref ... 37
13.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 37
14. Cyd-destun hanesyddol ... 37
14.1 Cwestiynau i Brif Swyddogion ... 38
15. Geirda ... 40
16. Atodiad 1 ... 43
17. Diolchiadau ... 44

# 1. Cyflwyniad

Mae stopio a chwilio yn dacteg blismona gyfreithlon, ac rydym yn cydnabod gwerth cael pŵer sy'n caniatáu i swyddogion gadw person, nad yw'n cael ei arestio, i'w chwilio nhw, neu i chwilio eu cerbyd, am eitem anghyfreithlon.  Disgrifiwyd y pwerau fel arf pwysig wrth ymdrin â throseddau yn ymwneud â chyllyll a chyffuriau, yn arbennig.  Fodd bynnag, mae ei ddefnydd anghymesur yn erbyn pobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall, [1] yn enwedig dynion Du ifanc, wedi bod yn bryder ers blynyddoedd lawer ac mae'n parhau i fod yn un o'r pwerau plismona mwyaf dadleuol.

Mae'r adroddiad hwn yn dod â tystiolaeth gyda'i gilydd o'n gwaith, ymgysylltiad â rhanddeiliaid ac ymchwil gyhoeddedig i amlygu pryderon ynghylch tryloywder, cyfreithlondeb, craffu, ac anghymesuredd y mae'n rhaid i'r gwasanaeth heddlu ac eraill eu hystyried a mynd i'r afael â hwy.  Ein nod yw i gefnogi newid a gwelliant mewn arferion plismona er mwyn helpu i gynyddu hyder y cyhoedd.

Gall y profiad o gael eich stopio a'ch chwilio fod yn hynod ymwthiol. Rydym yn clywed dro ar ôl tro gan achwynwyr ac eraill am brofiadau negyddol o gael eu stopio a'u chwilio, y diffyg cyfreithlondeb canfyddedig, a'r anfodlonrwydd a'r dicter y gellir ei achosi. Mae ymchwil yn dangos y gall y rhain arwain at golli ymddiriedaeth a chyfreithlondeb mewn plismona, ymyleiddio, gwahardd, ac mewn rhai amgylchiadau gallant rwystro llif y gwybodaeth yn ymwneud â throseddau gan dystion (Jackson, et al., 2012; Bradford, 2015; Y Gwir Anrh. David Lammy AS, 2017; Bradford, 2017).

Yn 2020, lansiwyd ein gwaith thematig ar wahaniaethu ar sail hil, sy'n ein galluogi i ymchwilio'n annibynnol i achosion na fyddent fel arfer yn bodloni ein trothwy ar gyfer ymchwilio. Mae mabwysiadu dull thematig yn ein helpu i adeiladu'r corff angenrheidiol o dystiolaeth er mwyn ysgogi gwelliannau gwirioneddol yn arferion yr heddlu drwy nodi arfer da a materion systemig, ac yn 2020 fe wnaethom ddefnyddio'r dull hwn i lunio 11 o argymhellion dysgu ffurfiol i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) yn dilyn ymchwiliad i 5 achos yn ymwneud â defnydd stopio a chwilio.

Yr adroddiad hwn yw'r cam nesaf yn dilyn y gwaith hwnnw, gan edrych ar ddysgu y gellid ei rannu ar lefel genedlaethol.

Rydym yn croesawu gwaith sy'n cael ei wneud gan y Coleg Plismona a NPCC i ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Heddlu ar Gynhwysiant a Hil (Coleg Plismona a

[1] Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r term 'lleiafrif ethnig arall' i gynnwys pob grŵp ethnig ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn Prydeinig a Gwyn. Mae'r achosion sydd wedi llywio'r argymhellion hyn i gyd yn cynnwys pobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall (ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn). Er nad yw wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod bod yna bobl o gefndir ethnig lleiafrifol Gwyn sydd hefyd â phryderon ynghylch defnydd anghymesur o dechneg stopio a chwilio.

NPCC). Rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r materion a amlygwn yn yr adroddiad hwn hefyd yn cael eu hystyried yn y Cynllun Gweithredu hwnnw ac yn awgrymu bod y dystiolaeth o'r adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith i symud y Cynllun Gweithredu yn ei flaen. Mae trafodaethau gyda'r NPCC yn ystod datblygiad yr argymhellion hyn wedi dangos bod llawer o waith yn digwydd o fewn heddluoedd unigol i ystyried ac archwilio arferion newydd ac arloesol. Mae'r NPCC yn chwarae rhan allweddol wrth gydlynu a rhannu gwybodaeth.

## 1.1 Defnydd stopio a chwilio

Mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos bod defnydd stopio a chwilio gan heddluoedd yn Lloegr ac yng Nghymru (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain) o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) (a deddfwriaeth gysylltiedig) wedi cynyddu 24% i 695,009 yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021(Swyddfa Gartref, 2021).

Roedd y cynnydd mwyaf yn nifer y chwiliadau am gyffuriau, a gododd i 478,576, cynnydd o 36% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) a gynhaliodd y nifer fwyaf o achosion o stopio a chwilio, gan gofnodi 311,352 o achlysuron, ac yna Glannau Mersi (47,893), Gorllewin Canolbarth Lloegr (25,800), Essex (25,586) a Heddlu Gorllewin Swydd Efrog (21,028). Gyda'i gilydd maent yn cyfrif am tua 60% o'r cyfanswm a gyflawnwyd y flwyddyn honno.

Mae'r un data gan y Swyddfa Gartref yn dangos, o'r 695,009 o achosion o stopio a chwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, bod gan 77% ohonynt ganlyniad 'Dim gweithredu pellach'.

# 2. Annog dysgu a gwelliant

Ein cenhadaeth yw i wella hyder y cyhoedd mewn plismona drwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi'n cael eu dysgu. Amcanion yr adroddiad hwn yw i:

- adolygu a choladu tystiolaeth bresennol, a thystiolaeth o'n hachosion a'n gwaith ymgysylltu i nodi themâu, patrymau a materion cyffredin;
- gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth gynyddol ynghylch y defnydd o stopio a chwilio gan yr heddlu yn Lloegr ac yng Nghymru; ac i
- nodi a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella.

Mae cwynion gan y cyhoedd yn fynegiant o anfodlonrwydd gyda'r ffordd y mae rhywun wedi cael ei drin neu gyda'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Mae'r

digwyddiadau difrifol yr ydym yn ymchwilio iddynt yn cynnig cyfleoedd i ddeall sut y gellir gwella gwasanaethau ac arferion yr heddlu er mwyn atal problemau rhag ddigwydd yn y dyfodol. Er bod y rhan fwyaf o gwynion, ymchwiliadau ac apeliadau neu adolygiadau yn canolbwyntio ar achosion unigol, gallant hefyd gael effaith ehangach sylweddol pan fyddwn yn canfod bod angen dysgu neu wella ar lefel sefydliadol neu genedlaethol.

Rydym yn gwneud argymhellion dysgu am sawl rheswm:

- Helpu i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto, a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau rydym yn ymchwilio iddynt.
- Gwella arferion plismona a rhannu enghreifftiau o arfer da.
- Diogelu'r cyhoedd a swyddogion rhag niwed.
- Helpu i hybu hyder y cyhoedd mewn plismona, y system gwynion, a'n gwaith.

Gall ein hargymhellion helpu i wneud newidiadau i blismona a diogelu aelodau o'r cyhoedd a'r heddlu.  Mae newidiadau a wneir mewn ymateb i ddysgu yn y pen draw yn gwella plismona i bawb, gan feithrin hyder ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.

## 2.1 Sail dystiolaeth yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn dod â sylfaen dystiolaeth at ei gilydd sydd wedi'i llywio gan:

- adolygiad o 37 o ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau gan yr IOPC rhwng 2018 a 2021.
- safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i'r IOPC yn benodol mewn perthynas â'r argymhellion hyn ac yn fwy cyffredinol drwy ein gwaith ymgysylltu o ddydd i ddydd; ac
- adolygiad o ddata a thystiolaeth allweddol mewn perthynas â defnydd stopio a chwilio gan gynnwys data cenedlaethol, adroddiadau ymchwil a gwybodaeth o arolygiadau.

Ar gyfer pob un o'n hargymhellion rydym wedi darparu tystiolaeth o'n hachosion i enghreifftio'r materion a welsom. Mae'r enghreifftiau manylach wedi cael eu cynnwys i ddod â'r mater yn fyw, tra bod yr enghreifftiau byrrach yn dangos ystod y materion a'u hamlder. Nid yw nifer yr enghreifftiau ar gyfer pob argymhelliad o reidrwydd yn adlewyrchu difrifoldeb y maes dysgu ac mae gwahanol agweddau ar yr un achos wedi cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd i ddangos gwahanol bryderon.

Mae'r ymchwiliadau, yr apeliadau a'r adolygiadau sy'n llywio'r argymhellion dysgu hyn wedi cael eu nodi yn Atodiad 1; fodd bynnag, nid yw'r materion a nodwyd wedi'u

cyfyngu i'r achosion hyn yn unig. Rydym yn cyhoeddi crynodebau dienw ar gyfer ymchwiliadau annibynnol unwaith y bydd yr holl achosion cysylltiedig wedi cael eu cwblhau. Gellir gyrchu y rhai sydd ar gael trwy hyperddolenni yn y tabl.

Rydym yn cydnabod nad yw ein gwaith yn rhoi darlun cwbl gynrychioliadol i ni o blismona ac, felly, rydym yn derbyn nad yw'r enghreifftiau achos y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu pob defnydd o stopio a chwilio.

Serch hynny, mae ein hargymhellion, a'r dystiolaeth a gyflwynir ynddynt, yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion a all danseilio ymddiriedaeth a hyder yn nefnydd yr heddlu o stopio a chwilio pan na welir bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon, yn deg, a heb wahaniaethu.

## 2.2 Pwerau i gyhoeddi argymhellion dysgu

Mae gennym ddau bŵer cyfreithiol i wneud argymhellion o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Yn ôl paragraff 28A, Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, gallwn wneud argymhelliad mewn perthynas ag unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef mewn adroddiad ymchwiliad, apêl, neu adolygiad. Gellir gwneud yr argymhellion hyn i heddluoedd (un neu nifer) neu gomisiynwyr heddlu a throseddau. Gallwn hefyd, mewn rhai amgylchiadau, wneud argymhellion i sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, apêl neu adolygiad. Mae'n rhaid i'r heddlu neu'r sefydliad rydym yn gwneud argymhelliad iddo roi eu hymateb i ni o fewn 56 diwrnod heblaw bod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny. Gallant hefyd ofyn i ni i ymestyn yr amser i ymateb. Rhaid cyhoeddi'r argymhelliad a'r ymateb.

Mae Adran 10 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu yn ein galluogi i wneud argymhellion ehangach am arferion yr heddlu sy'n ymddangos. Nid oes gan hwn yr un gofyniad cyfreithiol i dderbynnydd yr argymhelliad ymateb, nac i'r argymhelliad neu unrhyw ymateb gael ei gyhoeddi.

# 3. Ein dull o gyhoeddi'r argymhellion dysgu hyn

Dim ond trwy weithio gyda phawb sy'n chwarae rhan ynddo y gellir wella'r system gyfan. Rydym wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill fel Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), y Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) i ddatblygu blaenoriaethau ar y cyd, rhannu dysgu ar draws ein gwaith a datblygu rhaglenni gwaith cydweithredol er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Rydym yn cyhoeddi'r argymhellion hyn i amrywiaeth o gyrff plismona. Lle'r ydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella y mae angen mynd i'r afael â hwy ar lefel

genedlaethol neu strategol ar draws plismona, rydym wedi gwneud argymhellion i'r NPCC, y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref.

Mae rhai meysydd angen ystyriaeth neu ei weithredu gan heddluoedd unigol; er enghraifft, er mwyn sicrhau bod ymddygiad swyddogion yn unol â disgwyliadau, neu er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion a chyd-destun lleol. Yn yr achosion hyn, rydym wedi mynd i'r afael â chwestiynau i'r prif swyddogion i'w hannog i asesu'r sefyllfa bresennol yn eu heddlu ac i fyfyrio ar unrhyw gamau pellach i'w cymryd. Rydym yn deall bod y camau a ysgogir gan y cwestiynau hyn yn debygol o edrych yn wahanol mewn gwahanol heddluoedd. Byddem yn annog prif swyddogion i weithio gyda chymunedau lleol a'u comisiynydd heddlu a throseddau i ystyried y ffordd orau o ymateb i'r materion yr ydym wedi'u hamlygu a gweithio gyda heddluoedd eraill i rannu syniadau ac arfer da.

Er ein bod yn cydnabod na all yr NPCC orchymyn camau gweithredu penodol o fewn heddluoedd lleol, mae gan yr NPCC rôl ganolog i'w chwarae wrth ddarparu arweinyddiaeth gref a gweladwy.  Gall wneud hyn drwy oruchwylio ac arwain datblygiad arferion gorau a newid er mwyn sicrhau cydlyniant cenedlaethol a darparu'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd, swyddogion cymorth a staff.

# 4. Cyfreithlondeb – dibynadwyedd, ansawdd, a phenodolrwydd cudd-wybodaeth

Mae llawer o achwynwyr yn disgrifio cred bod rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar liw eu croen yn arwain at gael eu trin yn wahanol; felly, mae'n ddilys ymchwilio a fyddai'r amheuaeth wedi bod yr un fath pe bai'r unigolion yn Wyn.

Mae Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) [2] y Coleg Plismona ar stopio a chwilio yn nodi y dylai cudd-wybodaeth fod yn gywir ac yn gyfredol ac mae gan uwch swyddogion a goruchwylwyr ddyletswydd i osod y blaenoriaethau plismona, naws ac arddull ar gyfer eu meysydd, tra'n sicrhau bod swyddogion yn gallu cyrchu cudd-wybodaeth a gwybodaeth gyfredol a chywir am batrymau troseddu lleol (Coleg Plismona). Fodd bynnag, deallwn nad yw hyn o reidrwydd yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gwahanol yr heddlu, sydd ar gamau gweithredu gwahanol.

Mae Cod PACE A yn nodi na ellir defnyddio ymddangosiad corfforol person, y ffaith eu bod yn hysbys bod ganddo euogfarn flaenorol, a thybiaethau ynghylch y tebygolrwydd y bydd pobl o gefndiroedd ethnig penodol yn cymryd rhan mewn

---

[2] Mae Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) yn cael ei ddatblygu ac yn eiddo i'r Coleg Plismona. Dyma ffynhonnell swyddogol ymarfer proffesiynol ar blismona ac mae ar gael i'r cyhoedd. Disgwylir i swyddogion a staff yr heddlu i 'roi sylw i APP wrth gyflawni eu cyfrifoldebau', er y gall swyddogion wyro oddi wrth APP os oes 'rhesymwaith clir dros wneud hynny.

gweithgaredd troseddol fel y rheswm dros eu stopio a’u chwilio neu unrhyw gerbyd y maent ynddo, heblaw bod gwybodaeth neu gudd-wybodaeth yn rhoi disgrifiad penodol o berson yr amheuir eu bod yn cario eitem y mae pŵer i chwilio ar ei gyfer.

Serch hynny, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, roedd pobl o gefndir Du neu Ddu Prydeinig saith gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a’u chwilio na’r rhai o gefndir ethnig Gwyn (Swyddfa Gartref, 2021). Roedd pobl o gefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, neu gefndir ethnig Cymysg, tua dwywaith a hanner yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio na'r rhai o gefndir ethnig Gwyn.

Er gwaethaf tystiolaeth aruthrol bod stopio a chwilio yn parhau i gael ei ddefnyddio’n anghymesur yn erbyn pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, dywed HMICFRS na all unrhyw llu esbonio’n foddhaol pam fod anghymesuredd o’r fath yn bodoli (HMICFRS, 2017).

**Achos enghreifftiol**

Fe wnaethom gynnal tri ymchwiliad ar wahân yn ymwneud â stopio a chwilio dynion Du gan yr un heddwas. Mewn un achos, roedd y swyddog yn patrolio'r strydoedd er mwyn amharu ar gangiau troseddau trefniadol ac atal troseddu. Er nad oedd gan y swyddog unrhyw enwau na chudd-wybodaeth, stopiodd y swyddog blentyn Du [3]15 oed ar amheuaeth o ymwneud â delio cyffuriau oherwydd ei fod yn arogli o ganabis ac oherwydd ei fod mewn ardal gyda chyfradd droseddu uchel. Ni ffeindiwyd unrhyw gyffuriau.

Daliodd ffilm fideo y swyddog yn dyrnu'r plentyn, mor galed fel ei fod wedi cwympo i'r llawr, ac yna'n cicio'r plentyn tra roedd ar y llawr. Cyhuddwyd y swyddog o ymosod a chanfwyd yn euog. Yn ei ddyfarniad, daeth barnwr yr achos i’r casgliad “nad yw cyfeiriad at faes trosedd uchel yn rhoi’r hawl i’r heddlu dargedu a stopio pob un neu unrhyw dynion Du. Ymddengys mai camddefnydd o broffilio hiliol yw'r cyfeiriad hwnnw yn hytrach na bod swyddog yn penderfynu a oes ganddo/ganddi sail resymol mewn perthynas â'r person o'u blaenau, waeth beth yw eu hethnigrwydd”. Canfu’r barnwr fod y swyddog wedi camddefnyddio ei bwerau heddlu o stopio a chwilio a daeth i’r casgliad bod y dyrnu a’r cicio yn ddiangen ac yn ddefnydd anghyfreithlon o rym. Felly, canfododd y swyddog yn euog o ymosodiad cyffredin trwy guro.

Mewn achosion eraill, rydym wedi ystyried a oedd penderfyniadau ac ymateb swyddogion wedi’u harwain neu eu dylanwadu gan dybiaethau a lywiwyd gan hil y bobl Ddu, Asiaidd, a phobl o leiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu stopio a’u chwilio.

[3] Mae Erthygl 1, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP), 1990, yn nodi: “At ddibenion y Confensiwn presennol, mae plentyn yn golygu pob person o dan 18 oed heblaw, o dan y gyfraith sy’n gymwys i’r plentyn, fod y mwyafrif yn cael ei sicrhau’n gynharach.” Adalwyd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - UNICEF DU

Gall hyn arwain at weithredoedd diniwed yn denu neu'n cynyddu amheuaeth, gan ysgogi stopio a chwilio. Er enghraifft:

- Roedd dyn Du oedd â cherdyn credyd rhywun arall yn ei feddiant yn cael ei amau o fod wedi ei ddwyn hyd yn oed ar ôl rhoi esboniad credadwy.
- Roedd dyn Du gyda'i law ar bwys ei fand gwasg yn cael ei amau o fod ag arf yn ei feddiant.
- Roedd dyn ifanc arall o leiafrif ethnig yn gyrru car drud wedi cael ei amau o fod yn rhan o weithgarwch gang.
- Cafodd dyn Du oedd yn gyrru mewn ardal o weithgarwch cyffuriau honedig ei atal oherwydd bod y swyddog yn meddwl bod ei gar yn ‘nodweddiadol’ o’r math o gar sy’n cael ei yrru gan werthwyr cyffuriau.
- Roedd dyn Du oedd yn sefyll ar gornel ffordd wedi cael ei amau o fod â chyffuriau yn ei feddiant.
- Roedd plentyn du yn reidio beic ar bwys cerddwr yn ystod cyfyngiadau Covid-19 wedi cael ei amau o fod yn rhan o gylch gwerthu cyffuriau.
- Roedd dyn Du yn eistedd ar blatfform gorsaf reilffordd ac yn teithio ar hyd yr hyn yr oedd y swyddog yn ei ystyried yn llwybr anuniongyrchol wedi cael ei amau o fod ag arf wrth gyrraedd ei boced.
- Roedd dyn Du a oedd yn mynd i mewn i flwch ffôn ac yn gadael eto wedi cael ei amau o fod yn gysylltiedig â gweithgaredd cyffuriau.
- Roedd dyn Du 18 oed wedi’i wisgo mewn dillad achlysurol, a oedd gyda dau ddyn arall, yr honnir bod un ohonynt wedi’i weld yn cuddio ei bocedi, wedi cael ei amau o fod yn rhan o weithgareddau troseddol pan oedd fel petai’n talu sylw arbennig i fan heddlu ac yn edrych yn nerfus.
- Tra yng nghwmni dyn Gwyn yr honnir iddo gyflawni ‘pat dillad’[4], roedd dyn Du, yr honnir iddo edrych yn nerfus pan ddaeth swyddogion heddlu ato, wedi cael ei amau o fod ag eitemau wedi’u dwyn neu waharddedig yn ei feddiant
- Roedd dyn Du a edrychodd ar gludwr heddlu sawl gwaith wedi cael ei amau o fod â chyffuriau yn ei feddiant.
- Disgrifiodd y swyddog ddymuniad dyn Du i ffilmio cyfarfyddiad fel ymateb an-rhesymol i stopiad traffig, ac yn arwydd o ymddygiadau a ddangoswyd gan rywun sydd â hanes troseddol a phrofiad o ddelio â’r heddlu.

4 Mae ‘pat dillad’ yn ystum lle mae person yn rhoi rhan o’i ddillad/corff i wirio’r cynnwys.

Ym mhob un o'r achosion hyn, profwyd bod yr amheuon yn ddi-sail ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw eitemau wedi'u dwyn neu eu gwahardd.

Efallai nad yw'n syndod bod pobl sy'n credu eu bod yn cael eu stopio a'u chwilio'n annheg, yn teimlo'n bryderus pan fydd swyddogion heddlu'n cysylltu â nhw (Coleg Plismona). Efallai y byddant eisiau ffilmio'r cyfarfyddiad er mwyn amddiffyn eu hunain. Fodd bynnag, mae ymddangos yn bryderus neu eisiau ffilmio'r cyfarfyddiad hefyd yn denu amheuaeth.

Mae'r achosion hyn yn rhoi enghreifftiau lle'r oedd y seiliau ar gyfer stopio a chwilio yn wan, yn aml yn seiliedig ar ffactorau ymddygiadol annelwig fel "edrych yn nerfus" a chudd-wybodaeth amhenodol megis "ardal trosedd uchel". O dan yr amgylchiadau hyn, lle nad yw achosion o stopio a chwilio yn cael eu hesbonio a'u cyfiawnhau'n iawn, nid yw'n afresymol i bobl deimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg, neu yn wir, eu bod wedi dioddef gwahaniaethu, a gall effaith hyn fod yn sylweddol, yn enwedig ar unigolion a chymunedau a allai fod â hyder isel yn yr heddlu yn barod.

Rhaid i blismona sicrhau bod pob defnydd o stopio a chwilio yn deg, yn gyfreithlon ac yn broffesiynol. Mewn amgylchiadau lle gallai rhagdybiaethau am berson ar sail eu hethnigrwydd neu oedran, yn hytrach na gwybodaeth benodol neu alwadau gan y cyhoedd, fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau swyddog, mae'n ddealladwy y gellir amau cyfreithlondeb ei ddefnydd.

Efallai y bydd heddluoedd am ystyried y ffyrdd y mae swyddogion yn cael eu lleoli, eu briffio, a'u goruchwylio a rhoi mwy o sylw i ymyriadau, megis toriadau i benderfyniadau a goruchwyliaeth amser iawn (Pearson & Rowe, 2020; Shiner, et al., 2018). Dylid hefyd ystyried pa ddata sy'n cael ei gofnodi ar gronfeydd data cudd-wybodaeth ar gyfer achosion o stopio a chwilio lle na cheir unrhyw eitemau (Søgaard & Rowe, 2020).

Mae ymchwil yn tynnu sylw at yr angen am asesiad cymesur o sut y gall pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill gael eu hamddiffyn rhag cael eu targedu'n afresymol ac dro ar ôl tro gan yr heddlu oherwydd cudd-wybodaeth sy'n seiliedig ar stereoteipiau a thybiaethau (Sekhon, 2011).

Ni fydd hyfforddiant (cydraddoldeb ac amrywiaeth neu ragfarn anymwybodol), ar ei ben ei hun, yn cyflawni'r gwelliannau parhaol sydd eu hangen (Pearson & Rowe, 2020). Dylid ei gyfuno â mentrau eraill a gyflwynir mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol yr effeithir arnynt a'u cefnogi gan ddiwylliant plismona cynhwysol.

Dylai heddluoedd fod yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ac asesiadau effaith cymunedol i ddeall a lliniaru risgiau o wahaniaethu a stereoteipio sy'n gysylltiedig ag ymateb plismona wedi'i lywio gan:

- y ffordd y mae person yn edrych neu'n gwisgo, gan gynnwys nodweddion personol, golwg, a'r math o ddillad;

- cysylltiadau teulu a chyfeillgarwch, a all arwain at dybiaeth euogrwydd fesul cymdeithas;
- sesiynau briffio sy'n cyfeirio swyddogion at blismona cymunedau penodol yn wahanol;
- lleoliad, daearyddiaeth, a'r defnydd o fannau awyr agored, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi;
- rhagfarnau neu stereoteipio aelodau eraill o'r cyhoedd; neu
- cudd-wybodaeth heb ei chadarnhau neu sydd wedi dod i ben nad yw wedi'i thynnu oddi ar systemau'r heddlu.

Mae llawer o heddluoedd eisoes yn cydnabod yr angen i wella dealltwriaeth eu swyddogion o’u cymunedau lleol ac yn archwilio arferion ychwanegol. [5]

## 4.1 Argymhelliad 1: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC a’r Coleg Plismona yn gweithio gyda’i gilydd i ddatblygu canllawiau ar sut i ddiogelu pobl o gefndir Du, Asiaidd, neu leiafrifoedd ethnig arall rhag cael eu stopio a’u chwilio oherwydd penderfyniadau sy’n cael eu heffeithio gan gudd-wybodaeth yn seiliedig ar ragdybiaethau, stereoteipiau, a thuedd hiliol, a lliniaru'r risgiau o wahaniaethu.**

## 4.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod systemau a phrosesau cudd-wybodaeth eich heddlu yn addas at y diben ac yn darparu gwybodaeth berthnasol a diweddar i gynorthwyo swyddogion yn eu penderfyniadau?**

b) **Pa gamau yr ydych yn eu cymryd ar hyn o bryd i ddarparu gwybodaeth berthnasol a diweddar i gynorthwyo swyddogion i wneud penderfyniadau ynghylch pryd a sut i ddefnyddio pwerau stopio a chwilio?**

c) **Pa gamau y mae eich heddlu yn cymryd i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig arall yn cael eu stopio**

5 Er enghraifft, mae Heddlu Glannau Humber yn darparu hyfforddiant ychwanegol i swyddogion heddlu cymdogaeth, i roi gwell dealltwriaeth iddynt o bobl sy'n deithwyr, yn Roma, yn ffoaduriaid neu'n ddigartref. Mae Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi cyflwyno tîm ‘Tegwch mewn Plismona’ yn ddiweddar, sy’n cynnal sesiynau gyda swyddogion rheng flaen i drafod ffactorau sy’n ymwneud ag anghymesuredd.

**a'u chwilio oherwydd cudd-wybodaeth sy'n seiliedig ar ragdybiaethau, stereoteipiau a thuedd hiliol?**

# 5. Cyfreithlondeb - chwiliadau cyffuriau

Mae'r ddibyniaeth ar arogl canabis fel yr unig reswm dros stopio a chwilio, a sut y defnyddir i gyfiawnhau'r gor- blismona ymddangosiadol mewn cymunedau Du, yn un o'r pryderon mwyaf a glywn gan randdeiliaid (Shiner, et al., 2018 ).

Mewn rhai o'n hymchwiliadau, mae arogl canabis naill ai wedi ffurfio'r unig sail a roddwyd dros stopio a chwilio, neu dyma'r prif reswm dros amheuaeth ochr yn ochr â naill ai pryderon gwan, amhenodol am ymddygiad, neu wybodaeth amwys yn ymwneud â lleoliad daearyddol. Mae'r enghreifftiau hyn yn atgyfnerthu canfyddiad cyffredin bod arogl canabis yn cael ei ddefnyddio fel esgus i stopio a chwilio, yn enwedig pan na fydd canabis yn cael ei ganfod ar yr unigolyn wedyn (Pearson & Rowe, 2020).

**Achos enghreifftiol**

Cafodd dyn Du oedd yn seiclo ar bwys gorsaf reilffordd fawr gyda dau gydymaith, ei stopio a'i chwilio ar ôl i swyddogion honni i arogli canabis. Daeth i sylw tri heddwas a oedd ar batrôl troed yn wreiddiol pan stopiodd ei feic o flaen y llinell wen er mwyn osgoi bod yng ngolwg lori fawr.

Yn ystod y rhyngweithio fe wnaeth y dyn sylw 'haerllug' bod yr stopiad traffig yn peryglu ei fywyd. Priodolodd y swyddogion arogl canabis i'r dyn ar y beic er ei fod wedi'i wisgo mewn gêr beicio Lycra a'u bod ar gyffordd brysur. Aeth y swyddogion i chwilio'r dyn a'i fag cyfrwy ond ni ddaethant o hyd i ddim.

Yn ei gwyn, dywedodd y dyn "Doedd y rhesymeg dros stopio a chwilio, i mi, ddim yn gwneud unrhyw synnwyr. Rwy'n credu bod y rhyngweithio yn wahaniaethol a bod y broses gyfan wedi'i chyflawni'n ddidwyll. Roeddwn i'n teimlo ei fod yn rhyfedd iawn ar ôl arogli canabis (bod y swyddog) wedi penderfynu fy stopio allan o bawb oedd yno. Rwy'n credu bod (y swyddog) wedi ceisio dial am y sylw digywilydd a wneuthum iddo. Nid wyf yn credu bod cyfiawnhad dros y chwilio, ac roedd yr holl brofiad yn fychanol i mi".

Mewn achos arall, cafodd plentyn Du 15 oed ei stopio ar amheuaeth o fod â chanabis yn ei feddiant ar ôl derbyn gwybodaeth gan swyddogion eraill fod dyn Du ifanc wedi rhedeg heibio nhw ac yn honni ei fod yn arogli o canabis. Ni ddaethpwyd o hyd i ganabis.

Lle canfyddir bod sail y chwiliad yn wan, mae cyfreithlondeb y stopio a'r chwilio yn cael ei danseilio, a all wneud pobl teimlo eu bod wedi'u targedu'n annheg, gan leihau hyder yng ngwasanaeth yr heddlu.

Mae Cod PACE A yn nodi bod yn rhaid i sail resymol dros amheuaeth fod yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd y gwrthrych dan sylw yn cael ei ganfod. Mae hefyd yn nodi bod y chwiliad yn fwy tebygol o fod yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn sicrhau hyder y cyhoedd os yw sail resymol dros amheuaeth yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau gwrthrychol (Swyddfa Gartref, 2015).

Mae Arfer Proffesiynol Awdurdodedig stopio a chwilio'r Coleg Plismona yn nodi nad yw'n arfer da i swyddog seilio ei sail ar gyfer chwilio ar un ffactor, fel arogl canabis yn unig, yn enwedig lle mae priodoli'n anodd, fel yn yr achosion hyn.

Rydym yn croesawu'r ymchwil academaidd annibynnol sy'n cael ei gomisiynu gan Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu i asesu effeithiolrwydd gorfodi canabis yng nghyd-destun trais.

## 5.1 Argymhelliad 2: i'r Swyddfa Gartref

**Mae'r IOPC yn argymell bod y Swyddfa Gartref yn adolygu'r hyn sy'n sail resymol dros amheuaeth dros feddu ar ganabis. Dylai'r adolygiad ystyried a yw arogl canabis yn unig yn darparu sail resymol dros stopio a chwilio ac a oes angen unrhyw newidiadau i God PACE A.**

## 5.2 Argymhelliad 3: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cymryd camau i gefnogi heddluoedd i leihau dibyniaeth eu swyddogion ar arogl canabis yn unig wrth benderfynu stopio a chwilio rhywun ac yn lle hynny defnyddio seiliau ar sail ffactorau gwrthrychol lluosog yn ymwneud â'r unigolyn penodol hwnnw.**

## 5.3 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau y mae eich heddlu yn cymryd i leihau dibyniaeth swyddogion ar arogl canabis yn unig wrth benderfynu stopio a chwilio rhywun ac yn lle hynny defnyddio seiliau ar ffactorau gwrthrychol lluosog yn ymwneud â'r unigolyn penodol hwnnw?**

b) **Pa dystiolaeth sydd gennych fod eich gweithredu yn cael effaith fesuradwy?**

# 6. Ansawdd a diogelwch y cyfarfyddiad

## 6.1 Cyfathrebu a dad-ddwysáu

Yn aml, rydym wedi gweld cyfathrebu annigonol ac o ansawdd gwael gan swyddogion o ddechrau'r broses stopio a chwilio. Efallai nad yw’n syndod bod pobl yn bryderus neu’n wrthwynebus i gael swyddogion heddlu i roi eu dwylo arnynt pan nad ydynt yn cael esboniad am y cyfarfyddiad.

Mae GOWISELY (SNEGEGHPCh) yn acronym a ddefnyddir gan swyddogion fel ‘aide memoire’ am y wybodaeth y maent i fod i’w rhoi i unigolyn sy’n cael ei stopio a’i chwilio, cyn dechrau’r chwiliad, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod PACE A. (Gweler ffigwr 1)

Gall defnyddio GOWISELY wella dealltwriaeth a chydymffurfiaeth ac osgoi gwaethygu, ond nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio'n gyson nac yn llawn. Mae'n ddyletswydd ar swyddogion i fod yn ystyriol o bob agwedd ar eu cyfathrebu - geiriau, tôn a ffordd o gyfathrebu heb eiriau - i gael cydweithrediad y person sy'n cael ei atal a lleihau'r defnydd o rym.

Mae trin y person yn deg ac yn barchus yn debygol o leihau'r tebygolrwydd o wrthdaro, gwaethygu a dicter. Fel y nodwyd yn APP stopio a chwilio’r Coleg Plismona, os yw’r person yn deall y rhesymau dros weithred swyddog, mae’n fwy tebygol o’i dderbyn a pheidio â’i weld yn fympwyol neu’n annheg (Coleg Plismona).

| **Ffigur 1** | |
|---|---|
| **S** | Eglurhad clir o **seiliau'r** swyddog dros amheuaeth, e.e. gwybodaeth, cudd-wybodaeth, neu ymddygiad penodol person |
| **N** | Esboniad clir o **nod** a phwrpas y chwiliad o ran yr erthygl y chwilir amdani |
| **G** | Cerdyn **gwarant**, os nad yw mewn iwnifform, neu os gofynnir amdano |
| **E** | **Enw'r** swyddog(ion): enw a rhif neu, mewn achosion sy'n ymwneud â therfysgaeth neu lle mae risg benodol i'r swyddog, dim ond rhif gwarant neu goler |
| **G** | **Yr** orsaf y mae'r swyddog yn gysylltiedig â hi |
| **H** | **Hawl** i gopi o'r cofnod chwilio o fewn 3 mis |
| **P** | **Pŵer** cyfreithiol a ddefnyddir |
| **Ch** | Rydych **chi** yn cael eich cadw at ddibenion chwiliad |

Fodd bynnag, ni fydd defnyddio GOWISELY ar ei ben ei hun yn gwarantu cyfarfod cadarnhaol. Yn absenoldeb seiliau teg a rhesymol, lle defnyddiwyd iaith amharchus neu lle bu methiant i ddad-ddwysáu, neu pan ddefnyddiwyd grym, mae'n bosibl y bydd person yn dal i adael y cyfarfyddiad yn teimlo'n dramgwyddus.

**Achos enghreifftiol**

Cafodd dyn Du 18 oed wedi'i wisgo mewn tracwisg, oedd yn rhedeg adref o'r gampfa, ei atal gan swyddogion heddlu oedd yn gweithredu ar gudd-wybodaeth fod sawl person ifanc, yr amheuir bod ganddynt gyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant, wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth heddwas yn yr ardal leol. Cafodd y dyn Du ei stopio a'i chwilio oherwydd ei fod yn cyfateb yn rhannol i ddisgrifiad y sawl a ddrwgdybir, a oedd yn cael ei ddosbarthu dros radios yr heddlu, ac oherwydd bod swyddogion yn gweld ei fod yn rhedeg i ffwrdd oddi wrthynt ar ôl gwneud cyswllt llygad. Yn gynwysedig yn y darllediad radio roedd cyfeiriad at un o'r bobl ifanc fel dyn Gwyn tal, yn gwisgo tracwisg. Mae'r achwynydd yn credu iddo gael ei stopio oherwydd ei fod yn ddyn Du.

Honnir bod swyddogion wedi methu â dilyn GOWISELY na rhoi sail i amheuaeth i'r dyn. Mae'n honni iddo gael ei gludo i'r llawr, gan achosi i'w drowsus ddisgyn i lawr, ac na chaniataodd swyddogion iddo eu tynnu i fyny tra roedden nhw'n ei chwilio am gyffuriau.

Cafodd ei roi mewn cyffion llaw gan swyddogion yn ystod y stopiad oherwydd eu bod yn ei ddisgrifio fel un gwrthiannol a chynhyrfus.

Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw eitemau wedi'u dwyn neu oedd yn waharddedig.

Mae enghreifftiau eraill wedi cynnwys:

- Roedd stopio a chwilio dyn Du, a ddatblygodd i ddefnyddio grym, gan gynnwys cyffion llaw a chwistrell analluogi, o fewn munud i ddechrau'r cyfarfod, yn golygu nad oedd digon o amser i swyddogion ymdrin â holl elfennau GOWISELY.
- Cafodd dyn Du, yr honnir iddo gael ei stopio a'i chwilio ar amheuaeth o ddwyn beic, ei wthio ar foned car heddlu, ei ddyrnu, ei chwistrellu â chwistrell analluogi, a'i roi mewn cyffion llaw. Dechreuodd y defnydd o rym o fewn 12 eiliad i ddechrau'r cyfarfyddiad. Honnodd y dyn na roddodd y swyddog sail i'r chwiliad.

Yn yr achosion hyn, yn hytrach na chael cydweithrediad y person drwy ei dawelu, mae'n ymddangos bod swyddogion wedi colli cyfleoedd i fynegi'r rhesymau dros y chwiliadau'n ddigonol, gan adael y dynion i deimlo'n rhwystredig ac yn ansicr ynghylch y ffactor ysgogol.

Rydym hefyd wedi gweld achosion lle gallai dewis iaith gwael swyddogion, gan gynnwys y defnydd o sylwadau amharchus, ymosodol, neu sarhaus o bosibl, fod wedi achosi i'r sefyllfa i waethygu. Er enghraifft:

- Cafodd plentyn Du 14 oed, gafodd ei stopio gan swyddogion yr heddlu ar amheuaeth o fod â chyffuriau yn ei feddiant, cyffion llaw i'w atal rhag ddianc, ymladd, neu lyncu cyffuriau, gan fod y swyddog yn credu mai dyna sut mae gwerthwyr cyffuriau fel arfer yn ymateb i gael eu stopio a'u chwilio. Ni ffeindiwyd unrhyw gyffuriau. Pan heriodd mam-gu’r plentyn y swyddog fod hyn yn digwydd oherwydd bod y plentyn yn Ddu, cyhuddodd y swyddog ei bod hi'n hiliol.

- Roedd partner benywaidd Du i ddyn Du, a gafodd ei stopio gan swyddogion heddlu ar ôl gyrru heibio cyfeiriad a oedd yn cael ei warchod gan swyddogion mewn perthynas ag ymchwiliad i droseddau cyffuriau, wedi cynhyrfu a dywedodd wrth y swyddogion eu bod yn teimlo eu bod wedi cael ei broffilio'n hiliol. Ymatebodd un swyddog trwy ddweud “rydych chi newydd neidio ar y bandwagon o ystyried yr hinsawdd bresennol. Nid yw'n iawn”. Cwynodd y fenyw fod ymatebion y swyddog, gan gynnwys gwenu pan heriodd hi am deimlo ei bod wedi cael ei phroffilio'n hiliol, yn ddiystyriol o’i phryderon dilys.

- Honnir bod swyddogion wedi gweiddi ar fachgen Du 15 oed, “rwyt ti'n lwcus, rydw i mewn iwnifform” a “does yr un ohonom ni'n ffycin hiliol felly wedi ein cau i fyny gyda'r cachu hiliol yna” pan ofynnodd i swyddogion a oedd ei ethnigrwydd wedi chwarae rhan fawr ohono'n cael ei stopio a'i chwilio ar ôl honnir iddo arogli canabis.

- Dywedodd swyddog wrth ddyn Du “Dydw i ddim yn gwybod os wyt ti'n droseddwr neu peidio, ond pan fyddet ti'n dechrau gosod dy ffôn i fyny a galw pobl drosodd mae'n creu ychydig o olygfa i mi” a “mae hyn yn dangos y math o berson rwyt ti” pan geisiodd ffilmio ei hun yn cael ei stopio a'i chwilio.

- Yn ystod stopio a chwilio dyn arall o leiafrif ethnig a oedd yn ceisio recordio’r cyfarfyddiad ar ei ffôn, awgrymodd swyddog mai’r unig bobl a fyddai’n ffilmio rhyngweithio gyda’r heddlu yw pobl ag euogfarnau troseddol, sydd fel arfer yn gysylltiedig â thrais gan gangiau.

## 6.2 Dad-ddwysáu – herio ymddygiad amhriodol

Hyd yn oed os yw person yn ymddangos yn wrthdrawiadol neu'n gynhyrfus, dylai swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau eu cydweithrediad a thawelu'r sefyllfa, trwy fod yn broffesiynol a thrin pobl ag urddas a pharch, cyn troi at rym.

**Achos enghreifftiol**

Cafodd dau ddyn Du eu stopio ar stryd gan chwe heddwas, ar ôl i un o’r swyddogion gredu eu bod wedi eu gweld yn cymryd rhan mewn cyfnewidfa gyffuriau. Ychydig iawn o gyfathrebu oedd cyn i swyddogion gydio yn un o'r dynion a cheisio rhoi cyffion llaw arno. Teimlai’r ddau dyn eu bod yn cael eu targedu’n annheg oherwydd eu bod yn Ddu, a chododd tensiynau. Ymyrrodd y rhingyll yn y fan a’r lle a llwyddodd i dawelu’r sefyllfa, ond fe waethygodd eto pan dynnodd y sarjant yn ôl o’r sgwrs.

Ar ôl i unrhyw gyffuriau gael eu darganfod ar y dynion, bu swyddogion yn chwilio cerbyd oedd yn perthyn i un ohonyn nhw. Ni ffeindiwyd unrhyw gyffuriau.

Cafodd un o’r dynion ei arestio hefyd pan ddaethpwyd o hyd i gerdyn credyd yn ei feddiant a oedd mewn enw gwahanol. Cafodd y dyn ei ddad-arestio’n ddiweddarach pan gadarnhawyd bod y cerdyn credyd yn eiddo i’w gariad.

Os oes unrhyw arwydd bod swyddogion yn defnyddio seiliau gwan, bod rhagfarn yn dylanwadu ar eu penderfyniadau, bod cyfathrebu’n amhriodol, neu fod gormod o rym wedi cael ei ddefnyddio, dylai swyddogion eraill a’u goruchwylwyr fod yn eu herio. Fodd bynnag, mewn rhai o’n hachosion fel ein bod wedi gweld mae cyfleoedd o’r fath i ymyrryd wedi cael eu methu.

Mae’r Cod Moeseg yn disgrifio disgwyliad y bydd swyddogion yn adrodd, herio, neu gymryd camau yn erbyn ymddygiad cydweithwyr sydd wedi disgyn yn is na’r safonau ymddygiad proffesiynol. Ni ddylai swyddogion byth anwybyddu ymddygiad anfoesegol neu amhroffesiynol gan gydweithiwr plismona, beth bynnag yw rheng, gradd, neu rôl yr unigolyn (Coleg Plismona, 2014). A dylai heddluoedd fod yn annog ac yn cefnogi goruchwylwyr a chyfoedion i gyflawni eu rhwymedigaeth o dan y safon hon pan fyddant yn gallu gweld bod pethau'n mynd o chwith.

## 6.3 Dod â'r cyfarfyddiad i ben

Mewn nifer o'n hachosion, roedd y chwiliad neu'r ymholiad cychwynnol yn negyddol. Ar y pwynt hwn dylai swyddogion geisio dod â'r cyfarfyddiad i ben mewn modd priodol, gan egluro canlyniad y stopio a chwilio a (lle ei fod yn briodol) cynnig sicrwydd neu ddiolch i'r person am ei gydweithrediad. Fodd bynnag, rydym wedi gweld swyddogion yn dod o hyd i seiliau newydd i barhau â'r chwiliad/canfyddiad.

**Achos enghreifftiol**

Daeth swyddogion at ddyn Du tra'r oedd wedi parcio yn ei gar mewn ardal breswyl. Eglurodd y swyddogion i ddechrau eu bod am benderfynu a oedd y car wedi'i gofrestru iddo ac a oedd wedi'i yswirio.

Yna dywedodd swyddog wrth y dyn eu bod yn mynd i'w chwilio am arfau. Dywedodd y swyddog ei fod yn amau o ymddygiad y dyn ei fod yn ceisio cuddio rhywbeth, er nad yw’n glir pam ei fod yn amau bod gan y dyn arf.

Rhoddwyd y dyn mewn cyffion llaw tra roedd ef a’i gar yn cael eu chwilio ac, ar un adeg, cafodd ei symud i fan yr heddlu er mwyn gallu cynnal chwiliad mwy trylwyr o’i esgidiau a’i drowsus. Ni ddaeth y swyddogion o hyd i unrhyw arfau.

Ystyriodd ein hymchwiliad a allai tybiaethau am y dyn fod wedi arwain at swyddogion yn dod yn amheus ohono a’n casgliad oedd na ellid diystyru ei hil fel ffactor a gyfrannodd.

Mae enghreifftiau eraill wedi cynnwys:

- Arweiniodd amheuaeth gychwynnol bod plentyn Du yn ei arddegau yn delio â chyffuriau at amheuaeth fod ganddo arf yn ei feddiant. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth.

- Arweiniodd amheuaeth gychwynnol bod dau ddyn Du yn cyfnewid cyffuriau at amheuaeth bod un ohonyn nhw wedi dwyn cerdyn banc er iddo roi esboniad credadwy ei fod yn ei feddiant.

Heblaw bod seiliau dilys a rhesymol pellach dros amheuaeth barhaus, dylid ddod â chyfarfyddiadau i ben unwaith y bydd yr amheuaeth wreiddiol wedi'i dawelu mewn modd sy'n lleihau effaith ac anfodlonrwydd. Fel arall, gall fod canfyddiad bod swyddogion yn ‘chwilio’ am dystiolaeth, sy’n tanseilio cyfreithlondeb y stopio a’r chwilio parhaus.

## 6.4 Argymhelliad 4: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC a’r Coleg Plismona yn adolygu effeithiolrwydd a chymhwysiad GOWISELY ac yn ystyried a yw ei ddefnydd yn arwain at stopio a chwilio proffesiynol lle mae’r person yn deall y rhesymau dros weithredoedd swyddog cyn dechrau’r chwiliad.**

## 6.5 Argymhelliad 5: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona

**Mae'r IOPC yn argymell bod NPCC a'r Coleg Plismona yn cefnogi Prif Swyddogion i weithredu hyfforddiant cenedlaethol y Coleg Plismona ar sgiliau cyfathrebu a'r defnydd o ddad-ddwysau yn ystod stopio a chwilio.**

## 6.6 Argymhelliad 6: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i ystyried y camau y gellir eu cymryd yn eu heddlu i sicrhau bod pob swyddog yn deall bod ganddynt rwymedigaeth i herio ymddygiadau amhriodol a all ddigwydd yn ystod cyfarfyddiad stopio a chwilio. Dylai hyn gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes gan swyddogion sail ddigonol, lle gallai rhagfarnau fod wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir, lle bu cyfathrebu'n amhriodol neu lle defnyddiwyd grym gormodol.**

## 6.7 Argymhelliad 7: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i gymryd camau i sicrhau bod swyddogion yn eu heddlu yn deall eu rhwymedigaeth i ddod â chyfarfyddiadau i ben unwaith y bydd eu hamheuon wedi tawelu, mewn modd sy'n lleihau effaith ac anfodlonrwydd, heblaw bod seiliau dilys a rhesymol pellach dros amheuaeth barhaus.**

## 6.8 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau y mae eich heddlu yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod swyddogion yn dilyn hyfforddiant cenedlaethol y Coleg Plismona ar sgiliau cyfathrebu a defnyddio dad-ddwysau yn ystod cyfnodau stopio a chwilio?**

b) **Pa gamau y mae eich heddlu yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod pob swyddog yn deall bod ganddynt rwymedigaeth i herio ymddygiad amhriodol gan gydweithwyr a chyd-swyddogion a all ddigwydd yn ystod cyfarfyddiad stopio a chwilio, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan swyddogion sail ddigonol, lle gallai fod gan y broses benderfynu ddylanwad gan ragfarn, lle bu cyfathrebu'n amhriodol, neu lle defnyddiwyd grym gormodol?**

c) **Pa gamau y mae eich heddlu yn eu cymryd i sicrhau bod swyddogion yn deall eu rhwymedigaeth i ddod â chyfarfyddiadau i ben unwaith y bydd eu hamheuon wedi'i thalu, mewn modd sy'n lleihau effaith ac anfodlonrwydd, heblaw bod seiliau dilys a rhesymol pellach dros amheuaeth barhaus?**

# 7. Defnydd o rym yn ystod stopio a chwilio

Thema gyffredin ymhlith ein hymchwiliadau stopio a chwilio yw'r defnydd arferol o gyffion llaw cyn arestio.

Mae adran 117 o PACE yn caniatáu i swyddogion ddefnyddio grym rhesymol i stopio a chwilio, os oes angen. Disgrifir grym rhesymol yn adran 3(1) o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1967 fel "y cyfryw rym ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i atal trosedd, neu wrth weithredu neu gynorthwyo i arestio, yn gyfreithlon, troseddwyr neu droseddwyr a amheuir neu bersonau sydd o gwmpas yn anghyfreithlon".

Mae'n dilyn y dylai swyddog fod yn fan cychwyn bob amser i geisio cydweithrediad gan y person sy'n cael ei stopio a'i chwilio a dim ond ystyried bod angen uwchgyfeirio i chwiliad gorfodol pan fydd y person yn gwrthwynebu neu'n ei wneud yn glir ei fod yn anfodlon cydweithredu.

Rydym yn cydnabod y sefyllfaoedd heriol y mae swyddogion yn ffeindio eu hunain weithiau, ac rydym yn ymwybodol o dan rai amgylchiadau ei fod yn angenrheidiol ac yn briodol i swyddogion ddefnyddio cyffion llaw i'w hamddiffyn eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn aml yn gweld swyddogion yn defnyddio cyffion llaw fel mater o drefn, neu'n troi'n gyflym at gyffion llaw neu grymoedd eraill er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n ymddangos eu bod hyd yn oed yn cael eu defnyddio lle mae'n ymddangos bod y person yn cydymffurfio â'r chwiliad.

Mae defnyddio cyffion llaw, neu unrhyw fath o rym, ar unwaith yn newid deinameg y cyfarfyddiad fel nad yw bellach yn teimlo'n gydsyniol. Mae annog person i wneud rhywbeth o'i wirfodd, drwy gydnabod ei gyflwr emosiynol a gweithredu'n broffesiynol, yn debygol o fod yn fwy effeithiol ac yn fwy diogel na'i orchymyn neu ei orfodi'n gorfforol i wneud hynny.

Mewn rhai o'n hachosion, rydym wedi gweld sut y gallai'r defnydd o rym fod wedi achosi i sefyllfaoedd waethygu, sy'n niweidiol i hyder y rhai a gymerodd ran yn uniongyrchol, unrhyw wylwyr, ac aelodau o'r gymuned ehangach.

**Achos enghreifftiol**

Cafodd dyn Du, ble nad yw Saesneg yn ei iaith gyntaf, ei stopio a chwilio am feddiant o gyffuriau gan yr heddlu ar blatfform gorsaf drenau, ar ôl dewis eistedd ar fainc yn hytrach na mynd ar drên ar unwaith.

Honnir bod y swyddogion wedi cerdded heibio i ddyn Gwyn cyn penderfynu holi'r dyn Du. Nid yw'r sail ar gyfer amheuaeth yn glir, er bod swyddogion wedi nodi'r diffyg ymateb i gwestiynau stopio, ynghyd â'r dyn yn teithio ar hyd llwybr roedd y swyddogion yn ei ystyried yn anuniongyrchol, a'r honiad ei fod yn cyrraedd am ei bocedi wedi creu amheuaeth uwch fel eu bod yn credu y gallai fod yn gysylltiedig mewn llinellau sirol.

Dyma hefyd oedd y rhesymau a roddwyd dros roi cyffion llaw ar y dyn, yn ogystal â'i adeiladwaith, a ddisgrifiwyd fel un mawr a chyhyrog. Yn ôl adroddiad y swyddog ymchwilio, dywedodd y swyddog a gynhaliodd y chwiliad wrth yr ymchwilwyr: 'fel arfer mae swyddogion yn cael eu hymosod pan fyddant yn chwilio pobl ac i atal hyn mae'r sawl sy'n cael ei chwilio yn cael ei roi mewn cyffion llaw'.

Mewn achos arall, cafodd plentyn Du 12 oed, a oedd â chast plastr ar un o'i ddwylo, ei roi mewn cyffion llaw o fewn 20 eiliad i'r swyddog adael ei gerbyd heddlu, er ei fod yn cydymffurfio o'r cychwyn, a chyn cael y cyfle i egluro ei fod yn gwneud swydd ar ran ei fam.

Mae ymchwil wedi dangos y gall canfyddiadau ystrydebol o bobl Ddu fel rhai peryglus, treisgar, anweddol, a bod â chryfder "goruwchddynol" fod yn cyfrannu at y defnydd anghymesur o rym ac ataliaeth yn erbyn unigolion o'r fath (Open Society Foundations, 2019; Y Fonesig Elish Angiolini DBE QC, 2017 ).

Oherwydd natur gyhoeddus cyfarfyddiadau stopio a chwilio, gall y rhai sy'n destun iddynt deimlo embaras a bychanu ac mae hyn yn gwaethygu pan ddefnyddir grym. Er bod PACE yn caniatáu i swyddogion ddefnyddio grym rhesymol i stopio a chwilio, os oes angen, dylid ceisio cydweithrediad y person bob amser fel man cychwyn i swyddogion. Ni ddylai swyddogion ystyried bod angen uwchgyfeirio i chwiliad gorfodol oni bai bod eu diogelwch yn wirioneddol mewn perygl, neu fod y person yn gwrthwynebu neu'n ei gwneud yn glir nad yw'n fodlon cydweithredu.

Mae ystadegau arbrofol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer 2019/20 yn dangos bod swyddogion tua 5.7 gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio grym ar bobl Du na phobl Gwyn ar draws pob tacteg. Yn ogystal, roedd pobl du wyth gwaith yn fwy tebygol o 'gael eu roi mewn cyffion llaw mewn ffordd cydymffurfiol' (Swyddfa Gartref, 2021).

## 7.1 Argymhelliad 8: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a’r Coleg Plismona

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC a’r Coleg Plismona yn cydweithio i ddatblygu canllawiau ar sut i ddiogelu pobl o gefndir Du, Asiaidd, neu leiafrif ethnig arall rhag profi defnydd anghymesur o rym yn ystod stopio a chwilio oherwydd rhagdybiaethau a rhagfarnau ystrydebol sy’n effeithio ar ymateb plismona.**

## 7.2 Argymhelliad 9: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i gymryd camau i sicrhau, o fewn eu heddlu, nad yw swyddogion sy’n arfer pwerau stopio a chwilio yn defnyddio grym, yn enwedig cyffion llaw, fel mater o drefn, a’u bod ond yn uwchgyfeirio i chwiliad gorfodol lle bod y person yn gwrthwynebu neu'n ei wneud yn glir eu bod yn amharod i gydweithredu.**

## 7.3 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau y mae eich heddlu yn eu cymryd i ddiogelu pobl o gefndir Du, Asiaidd, neu leiafrif ethnig arall rhag profi defnydd anghymesur o rym yn ystod stopio a chwilio oherwydd rhagdybiaethau a rhagfarnau ystrydebol sy'n effeithio ar yr ymateb plismona?**

b) **Sut ydych chi'n sicrhau nad yw swyddogion sy'n arfer pwerau stopio a chwilio yn eich heddlu yn defnyddio grym, yn enwedig cyffion llaw, fel mater o drefn, a'u bod ond yn dwysau i chwiliad trwy rym pan fo bygythiad gwirioneddol i ddiogelwch, neu fod y person yn gwrthwynebu neu'n ei wneud yn glir eu bod yn amharod i gydweithredu?**

# 8. Cofnodi data - pwy sy'n cael grym wedi'u defnyddio arnynt pan gaiff eu stopio a'u chwilio?

Rydym yn deall nad oes dull cenedlaethol cyson ar hyn o bryd ar gyfer monitro a chraffu ar ddata heddluoedd i ddeall nodweddion gwarchodedig yr unigolion y mae grym yn cael ei ddefnyddio arnynt yn ystod stopio a chwilio.

**Achos enghreifftiol**

Cafodd dyn Du ei stopio a'i chwilio gan blismyn yn dilyn cudd-wybodaeth oedd yn ymddangos bod y dyn yn gwerthu cyffuriau. Ceisiodd y swyddogion stopio'r dyn o fewn eiliadau er mwyn siarad ag ef a heb egluro pam yr oeddent wedi ei stopio. Gwrthwynebodd y rhwystriad, a gofynnodd dro ar ôl tro beth oedd wedi'i wneud o'i le.

Heb roi eglurhad, ceisiodd y swyddogion roi cyffion llaw ar y dyn a gosododd un o'r swyddogion ei chwistrell analluogi. Ar ôl iddo gael ei gadw yn y ddalfa, chwiliwyd y dyn am gyffuriau, a derbyniodd y rheswm dros y stopio a chwilio. Ni ddaeth swyddogion o hyd i unrhyw gyffuriau. Llenwodd y ddau swyddog ffurflenni am y stopio a chwilio ac am ddefnyddio grym, ond methodd y ddau â chofnodi bod grym (cyffion llaw a chwistrell analluogi) wedi cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfarfod.

Mewn achos arall, fe wnaeth swyddogion heddlu droi at ddefnyddio grym yn ystod y broses o stopio a chwilio dyn Du yr honnir ei fod wedi dwyn beic o fewn 12 eiliad o ddechrau'r cyfarfyddiad. Defnyddiodd y swyddogion ataliaeth gorfforol, cyffion llaw, pwniadau i'r corff a chwistrell analluogi.

Wrth gyfiawnhau'r lefel hon o rym, disgrifiodd un o'r swyddogion y dyn fel un a oedd yn gwrthwynebu'n ymosodol, ond ni ategwyd hyn gan CCTV o'r digwyddiad. Cofnododd yr un swyddog hefyd fod cyffuriau yn ffactor oedd yn effeithio ar ei benderfyniad i ddefnyddio grym, er nad oedd unrhyw gudd-wybodaeth yn cysylltu'r dyn gyda'r cyffuriau ac ni awgrymodd y swyddogion eu bod yn amau ei fod o dan ddylanwad cyffuriau.

Argymhellodd adolygiad Lammy egwyddor o 'esbonio neu ddiwygio' lle y dylid ddarparu esboniadau ar sail tystiolaeth lle mae gwahaniaethau amlwg rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ethnig, a ble na ellir ddarparu esboniadau ar sail tystiolaeth, y dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny (Y Gwir Anrh. David Lammy AS, 2017).

Byddai cael set gyson a chadarn o safonau ansawdd data yn cefnogi arfer da ac yn helpu heddluoedd i wneud defnydd effeithiol o unrhyw ddata a gesglir, gan gynnwys nodi unrhyw dueddiadau a materion, ac unrhyw dystiolaeth o ragfarn wahaniaethol yn nefnydd swyddogion o rym yn ystod cyfnodau o stopio a chwilio. Byddai hefyd yn galluogi cymharu'r data hwn â gwybodaeth am gynrychiolaeth pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol ymhlith data gweithlu'r heddlu i benderfynu a allai diffyg cynrychiolaeth fod yn effeithio ar anghymesuredd.

## 8.1 Argymhelliad 10: i'r Swyddfa Gartref

**Mae'r IOPC yn argymell bod y Swyddfa Gartref yn cytuno ar ddull o gofnodi data am nodweddion gwarchodedig unigolion sydd â phwerau plismona eraill (megis A.163 a'r defnydd o rym) a ddefnyddir arnynt ar yr un pryd â chael eu stopio a'u chwilio. Dylai'r dull fod yn rhan o brotocolau cofnodi presennol a dylai gynnwys adroddiadau ar y cysylltiadau rhwng ethnigrwydd yr unigolyn a'i gysylltiad â stopio a chwilio, defnyddio grym a stopio cerbydau.**

## 8.2 Argymhelliad 11: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell, unwaith y bydd proses safonol ar gyfer cofnodi data ar nodweddion gwarchodedig unigolion sydd â phwerau plismona eraill a ddefnyddir arnynt (megis A.163 a'r defnydd o rym) ar yr un pryd â chael eu stopio a'u chwilio wedi'i chytuno, bod yr NPCC yn darparu cymorth i heddluoedd i'w weithredu yn eu hardal leol.**

# 9. Cofnodi data – stopio cerbydau

Mae stopio a chwilio dynion Du a pobl lleiafrifoedd ethnig eraill mewn cerbydau yn rhan o nifer o'r ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau annibynnol yr ydym wedi delio â nhw ers 2018.

Mae'r pŵer i atal cerbydau heb orfod rhoi rheswm yn parhau i niweidio cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned (StopWatch a Liberty, 2017). Mae achwynyddion a rhanddeiliaid cymunedol wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u targedu'n anghymesur.

Rydym wedi gweld dynion Du a pobl lleiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu stopio yn eu cerbydau oherwydd:

- eu bod yn bresennol mewn man problemus o ran cyffuriau;
- eu bod yn gyrru math o gar sy'n gysylltiedig â gwerthwyr cyffuriau;
- eu bod yn Ddu mewn ardal lle roedd gwybodaeth 7 mis oed yn nodi bod dynion Du yn ymwneud â gwerthu cyffuriau;
- eu bod ddwywaith yn gyrru heibio lleoliad yn cael eu gwarchod mewn cysylltiad â throseddau cyffuriau, mewn car sydd wedi'i gofrestru mewn ardal wahanol;
- eu bod gyrru car sydd heb gael ei gofrestru yn yr ardal;

- eu bod yn edrych ar swyddogion mewn ffordd benodol, ac
- eu bod allan yn ystod cyfnod o gyfyngiadau Covid-19.

Mae Adran 163 o Ddeddf Traffig Ffyrdd (RTA) 1988 yn caniatáu i swyddog heddlu fynnu bod gyrrwr cerbyd yn stopio pan gaiff ei gyfarwyddo a'n ei wneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio. Mae pwerau pellach o dan yr RTA (Adran 164) yn rhoi'r pŵer i swyddog, gydag achos rhesymol, i'w wneud yn ofynnol i ddangos trwydded yrru, cael enwau a chyfeiriadau a thystiolaeth o yswiriant. Mae Adran 165 hefyd yn rhoi'r pŵer i'r heddlu i waredu ar gerbyd sy'n cael ei yrru heb unrhyw yswiriant na thrwydded.

Dim ond os yw un o'r pwerau stopio a chwilio yn berthnasol o dan yr amgylchiadau bydd swyddog yn cael chwilio cerbyd neu bobl sydd ynddo; er enghraifft, os oes cudd-wybodaeth yn rhoi sail resymol i amau bod cyffuriau neu arf yn cael eu cario yn y cerbyd, neu os yw pwerau Adran 60 neu Adran 44 yn berthnasol. Os nad oes pŵer yn berthnasol, ni ddylid cynnal unrhyw chwiliad.

Mae canfyddiad ymhlith rhai rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol bod pwerau Adran 163 yn cael eu defnyddio'n annheg, ac fel pŵer gan swyddogion sy'n benderfynol o ddod o hyd i sail i atal a chwilio pobl yn ffurfiol o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig arall. Dangosir hyn mewn achos lle roedd dyn o Ogledd Affrica yn credu bod swyddogion wedi defnyddio eu pwerau o dan Adran 163 o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd i roi cyfle iddo ef a'i gerbyd stopio a chwilio'n ddi-sail.

Nid yw cofnodi'r defnydd o Adran 163 o'r RTA, na'r bobl y mae'n effeithio arnynt, wedi'i orfodi gan unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, er bod miloedd o bobl yn cael eu stopio yn eu ceir bob blwyddyn (HMICFRS, 2015). O ganlyniad, heblaw bod heddluoedd eu hunain wedi penderfynu cofnodi'r wybodaeth hon, neu fod pŵer arall yn cael ei ddefnyddio wedyn, nid oes unrhyw gofnodion o ethnigrwydd unigolion y stopiwyd gan ddefnyddio pwerau Adran 163. Yn y cyd-destun hwn, ni all heddluoedd ddeall os yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n deg neu'n effeithiol. Mae'r diffyg tryloywder hwn yn golygu nad oes cyfle ar gyfer craffu cyhoeddus nac atebolrwydd. Mae hefyd yn atal craffu ac atebolrwydd effeithiol trwy system gwynion yr heddlu.

Fel y nodir yng Nghod PACE A, mae swyddogion yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel ei fod yn rhaid i swyddog, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. Ni chaniateir i swyddogion stopio cerbyd ar sail nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, oedran neu wisg grefyddol y gyrrwr neu'r teithwyr.

Byddai cofnodi data ar stopio cerbydau yn caniatáu archwilio a chraffu ar y defnydd o'r pŵer hwn, gan gynnwys unrhyw anghymesuredd a'i effeithiolrwydd wrth ganfod trosedd ac unrhyw wahaniaethu.

Rydym yn deall fod yr NPCC wedi cynnal cynllun peilot yn 2017 yn gweithredu gofynion adrodd adran 163 mewn pum ardal heddlu: Northumbria, Swydd Gaergrawnt, Gorllewin Swydd Efrog, Sussex, a Surrey (ACC Steve Barry, 2017). Roedd yn ofynnol i heddluoedd peilot adrodd ar ethnigrwydd y rhai a stopiwyd o dan Adran 163, eu hoedran, y rheswm dros y stopio, canlyniad y stop ac a oes cysylltiad rhwng rhesymau a chanlyniad. Rydym yn deall bod gwerthusiad o'r cynlluniau peilot hyn yn cael eu coladu gan yr NPCC a bydd yn rhan o'u cynllun gweithredu cynhwysiant a hil.

Rydym yn deall fod peilot recordio a gynhaliwyd yn Heddlu Swydd Northampton wedi dangos tystiolaeth o anghymesuredd yn y defnydd o Adran 163 tebyg i bwerau eraill a gofnodwyd a phwerau stopio a chwilio. Dangosodd arolwg cyhoeddus o fwy na 7,500 o yrwyr, a gynhaliwyd fel rhan o arolygiad HMIC yn 2015, fod pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Arall yn fwy tebygol o gredu bod stopiau traffig yn cael eu defnyddio'n annheg (HMICFRS, 2015).

Rydym yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu Swydd Bedford a Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ar hyn o bryd yn treialu cofnodi stopiau cerbydau Adran 163. Bydd peilot y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan yn cofnodi lleoliad ac amser yr stop, ethnigrwydd, rhyw ac oedran y gyrrwr, a gwneuthuriad a model y cerbyd. Gellid defnyddio'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o'r cynlluniau peilot hyn i lywio'r gwaith hwn.

## 9.1 Argymhelliad 12: i'r Swyddfa Gartref

**Mae'r IOPC yn argymell bod y Swyddfa Gartref yn cytuno ar ddull o gofnodi data ar y defnydd o bwerau Adran 163. Dylai data gynnwys gwybodaeth ar ba sail y cafodd cerbyd ei stopio, nodweddion y preswylwyr, ac unrhyw ganlyniadau yn dilyn y stopio.**

# 10. Fideo a wisgir ar y corff

Gall fideo a wisgir ar y corff (BWV) gefnogi tryloywder, ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu. Mae APP stopio a chwilio'r Coleg Plismona yn nodi 'y dull safonol yw y dylid actifadu fideo a wisgir ar y corff er mwyn dal yr holl wybodaeth berthnasol yn yr amser sy'n arwain at cadw'r person ar gyfer chwiliad, cynnal y chwiliad ei hun a'r casgliad dilynol o'r cyfarfyddiad' (Coleg Plismona).

Mae unrhyw fwlch mewn ffilm fideo yn atal asesiad annibynnol o'r cyfarfyddiad stopio a chwilio cyfan, trwy graffu mewnol neu allanol. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil berthnasol, wedi dweud wrthym am sefyllfaoedd ble na chafodd camerâu fideo a wisgir ar y corff, eu bod wedi cael eu troi ymlaen a'u diffodd yn ystod y cyfarfod, cafodd y ffilm ei dagio'n anghywir gan arwain at beidio â chael ei gadw, a dilëwyd y ffilm.

Mae rhaglen effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) o asesiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) wedi nodi gwerth BWV o ran gwella ymddygiad y swyddog heddlu a'r pobl sy'n cael eu stopio ac mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi ymrwymo'n gyhoeddus i archwilio gwaith pellach ar gryfhau'r defnydd ohono (HMICFRS, 2018).

Mae BWV yn galluogi dealltwriaeth o'r graddau y mae'r bobl hynny sy'n cael eu stopio a'u chwilio yn cael eu trin yn deg a chyda parch. Mae BWV yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth, sy'n galluogi adolygiadau ar ôl digwyddiad, datrys cwynion (gan gynnwys y rhai yr ymdrinnir â nhw gan yr IOPC), craffu effeithiol, yn ogystal â nodi gwersi gwerthfawr i wella rhyngweithio rhwng yr heddlu a'r cyhoedd.

**Achos enghreifftiol**

Methodd y ffilm fideo a wisgwyd ar y corff o ddau heddwas â chofnodi holl achosion stopio a chwilio dyn Du yr oeddent yn amau o brynu a darparu cyffuriau. Dim ond hanner ffordd drwy'r cyfarfyddiad y cafodd camera un swyddog ei actifadu; nid oedd camera'r swyddog arall wedi recordio o gwbl. Dywedodd y swyddog nad oedd ei gamera wedi recordio, nad oedd yn gwybod a ei fod wedi'i ddiffodd yn ddamweiniol, ei fod wedi gwneud camgymeriad wrth ei weithredu, neu a oedd y batri yn fflat.

Mae enghreifftiau eraill wedi cynnwys:

- Dechrau'r stopio a chwilio dau blentyn Du yn eu harddegau oedd ar goll o fideo a wisgwyd ar y corff oherwydd na chafodd y camera ei droi ymlaen yn ddigon cynnar.
- Ffilm fideo wedi'i gwisgo ar y corff anghyflawn o blentyn Du 14 oed yn cael ei stopio gan swyddogion yr heddlu ar amheuaeth o fod â chyffuriau yn ei feddiant oherwydd nam gwybodol ar gamera'r swyddog.
- Fideo a wisgwyd ar y corff heb ei actifadu nes bod swyddogion heddlu oedd wedi stopio a chwilio wedi arwain at ei gadw yn y ddalfa.
- Diffyg ffilm a wisgwyd ar y corff o ddyn Du 18 oed yn cael ei stopio gan swyddogion yr heddlu ar amheuaeth o fod â chyffuriau yn ei feddiant oherwydd honiadau nad yw'r swyddogion wedi cael eu hyfforddi i'w defnyddio.
- Dechrau cyfarfyddiad stopio a chwilio, gan gynnwys y cyswllt cychwynnol, heb ei ddal ar fideo a wisgwyd ar y corff gan swyddogion oherwydd oedi cyn troi'r camerâu ymlaen. Daliodd byffro cyn-ddigwyddiad ychydig o fideo cyn-actifadu ychwanegol, ond nid oedd y swyddogaeth hon yn dal sain.

## 10.1 Argymhelliad 13: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i gymryd camau i sicrhau bod swyddogion yn dilyn APP stopio a chwilio y Coleg Plismona ac yn defnyddio eu fideo a wisgir ar y corff er mwyn cipio'r holl wybodaeth berthnasol yn yr amser sy'n arwain at gadw'r person ar gyfer chwiliad, cynnal y chwiliad ei hun a chasgliad dilynol y cyfarfyddiad.**

## 10.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa fesurau sydd gennych ar waith er mwyn sicrhau bod swyddogion yn dilyn APP stopio a chwilio y Coleg Plismona ac yn defnyddio fideo a wisgir ar y corff er mwyn dal yr holl ryngweithio stopio a chwilio yn ei gyfanrwydd?**

b) **A yw eich heddlu yn defnyddio fideo a wisgir ar y corff yn rheolaidd i ddal stopiau traffig?**

# 11. Monitro a goruchwylio mewnol

Mewn rhai o'n hymchwiliadau, rydym wedi canfod patrymau ymddygiad sy'n awgrymu defnydd anghymesur hir o bwerau stopio a chwilio gan swyddogion penodol. Mae'n debyg nad oedd y rhain wedi cael eu nodi gan swyddogion goruchwylio cyn eu cyfeirio at yr IOPC.

**Achos enghreifftiol**

Yn ystod ymchwiliad i mewn i stopio a chwilio dyn Du gan swyddogion heddlu, dangosodd cofnodion stopio a chwilio un swyddog fod 79% o'u stopiau a'u chwiliadau o dan Adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau ers 2015 yn ymwneud ag unigolion Du, Asiaidd, neu gefndir ethnig lleiafrifol arall. Wrth gymharu, dangosodd gwybodaeth ddemograffig o gyfrifiad 2011 mai dim ond 43% o drigolion yr ardal a gwmpesir gan yr orsaf lle'r oedd y swyddog wedi'i leoli a oedd o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall.

Mewn achos arall, roedd cofnodion stopio a chwilio heddwas yn dangos bod 74% o'r pobl a stopiodd yn Ddu, tra bod y cyngor bwrdeistref lleol wedi cofnodi demograffig preswyl o 30% yn unig.

Rhaid i oruchwylwyr fonitro stopio a chwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol, yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio'n llawn â Chod PACE A, sy'n

cynnwys gofyniad i ystyried a oes unrhyw dystiolaeth bod pwerau'n cael eu harfer ar sail delweddau ystrydebol neu gyffredinoli amhriodol.

Byddai monitro cofnodion stopio a chwilio swyddog yn rheolaidd, gan gynnwys eu cyfraddau darganfod, ynghyd ag adolygu a dadfriffio'r ffilm a wisgir ar y corff, yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatgelu problemau ac yn rhoi'r wybodaeth i oruchwylwyr i fynd i'r afael ag unrhyw batrymau ymddygiad gwahaniaethol.

Gall gweithgareddau posibl gynnwys:

- cytuno ar bwynt ble y dylid ymchwilio i effeithiolrwydd isel stopio a chwilio, a nodir gan gyfraddau darganfod a/neu anghymesuredd uchel;
- ymchwilio pan fydd swyddog yn stopio'r un unigolyn dro ar ôl tro, er na ddaethpwyd o hyd i'r eitem y chwiliwyd amdani;
- hapsamplu rhagweithiol o gofnodion stopio a chwilio a fideo a wisgir ar y corff, nid yn unig er mwyn asesu ansawdd y cyfarfod, ond hefyd er mwyn monitro'r defnydd o fideo a wisgir ar y corff;
- darparu sianeli ar gyfer adborth gan gydweithwyr ar bob lefel, e.e. adolygiadau 360°;
- sicrhau bod goruchwylwyr yn cael digon o amser i wneud gwaith monitro a goruchwylio effeithiol a'u bod yn dwyn swyddogion i gyfrif pan fydd eu hymddygiad yn disgyn yn is na'r safonau disgwyliedig;
- sicrhau y rhoddir hyfforddiant i oruchwylwyr fel eu bod yn effeithiol o ran monitro, goruchwylio ac atebolrwydd;
- ystyried targedau ar gyfer y gyfran o weithgareddau monitro a goruchwylio a ddisgwylir gan oruchwylwyr;
- archwilio'r defnydd o dechnoleg i nodi patrymau ymddygiad problemus y mae angen eu hadolygu neu weithredu arnynt, megis cyfraddau canfod isel neu ddefnydd anghymesur o bwerau stopio a chwilio ar bobl o gefndiroedd ethnig penodol;
- dulliau ar gyfer rhannu dysgu ac arfer da; ac
- egluro rôl uwch arweinwyr.

Yn ystod ymgynghoriad â rhanddeiliaid plismona, rydym wedi clywed nad yw goruchwylwyr bob amser yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol o'r cychwyn. Rydym hefyd yn deall nad yw goruchwylwyr o reidrwydd yn cael yr amser i wneud gwaith monitro a goruchwylio effeithiol.

## 11.1 Argymhelliad 14: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i gymryd camau er mwyn sicrhau bod y strwythurau sydd ganddynt ar waith yn hwyluso monitro a goruchwyliaeth briodol o'r defnydd o bwerau stopio a chwilio, a bod goruchwylwyr yn cael yr amser a'u bod wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol i gyflawni eu dyletswyddau goruchwyliaeth.**

## 11.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Sut mae eich strwythurau a phrosesau'n hwyluso monitro a goruchwyliaeth briodol o'r defnydd o bwerau stopio a chwilio?**

b) **Pa gyfran o amser a neilltuir i oruchwylwyr gyflawni eu dyletswyddau monitro a goruchwylio?**

c) **Pa hyfforddiant a roddir i oruchwylwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau monitro a goruchwylio yn effeithiol?**

d) **Beth mae arweinwyr yn gwneud i sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio'n rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd mewn grym?**

# 12. Craffu allanol

Mae bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch pa mor dda y mae stopio a chwilio yn gweithio, trwy bartneriaethau effeithiol rhwng yr heddlu a'r cymunedau yr effeithir arnynt, ynghyd â chraffu ystyrlon, annibynnol, cyhoeddus, yn gam pwysig tuag at wella hyder y cyhoedd mewn plismona (Y Comisiwn ar hil ac amrywiaethau ethnig, 2021). Er enghraifft, fe wnaethom ymchwilio'n annibynnol i stopio a chwilio dyn Du pan gododd panel craffu stopio a chwilio annibynnol yr heddlu bryderon am y cyfarfyddiad ac argymell atgyfeirio i'r IOPC.

Mae APP ar stopio a chwilio'r Coleg Plismona yn disgrifio'r gwerth i heddluoedd o gael goruchwyliaeth gymunedol ac yn nodi dwy agwedd (Coleg Plismona):

- ymgysylltu â'r gymuned - hysbysu cymunedau am stopio a chwilio, gwrando ar eu barn (pa mor heriol eu bod) , a chan gymryd y safbwyntiau hynny i ystyriaeth; a

- craffu annibynnol - agor arferion stopio a chwilio i gymunedau i'w harchwilio'n fanwl, gyda'r bwriad o'u darparu trosolwg adeiladol, deialog, a her.

Fodd bynnag, rydym yn deall gan rai o'n rhanddeiliaid fod effeithiolrwydd ac annibyniaeth paneli craffu a grwpiau cynghori yn cael eu peryglu pan nad ydynt yn gynrychioliadol, yn annibynnol, yn bwrpasol, yn cael eu cefnogi nac yn ddylanwadol. Er enghraifft, rydym yn deall, o siarad ag aelodau paneli craffu, nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i graffu'n effeithiol ar un cyfarfod stopio a chwilio (cofnodion, ystadegau, deunyddiau hyfforddi, deunydd fideo a wisgir ar y corff, cynlluniau/strategaethau, ac ati) ar gael fel mater o drefn.

Er ein bod yn deall bod yn rhaid i fesurau diogelu priodol fod ar waith cyn y gellir rhannu gwybodaeth o'r fath, caiff effeithiolrwydd y craffu ei effeithio pan gaiff ei atal, ac ni all aelodau ystyried y darlun llawn.

Mae llywodraethu paneli craffu yn hanfodol i'w llwyddiant, ac rydym yn awgrymu y dylid ystyried:

- cael Cadeirydd sy'n annibynnol i'r heddlu;
- cael aelodaeth ddeinamig, gydag amrywiaeth wybyddol a chorfforol, sy'n cynrychioli'r gymuned leol, gan gynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan stopio a chwilio, megis pobl ifanc a'r rhai o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill;
- cynnwys aelodau yn y gwaith o ddatblygu amodau gorchwyl, agenda, a dull gweithredu ar gyfer y grŵp;
- cyhoeddi'r amodau gorchwyl yn gyhoeddus;
- trefnu cyfarfodydd i'w cynnal mewn lleoliadau cymunedol niwtral neu'n rhithiol;
- darparu'r adnoddau angenrheidiol i aelodau i fod yn effeithiol, gan gynnwys mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth a chymorth gweinyddol;
- rhoi mynediad i aelodau at gofnodion, data, deunydd fideo a wisgir ar y corff, ac ati (gan gydymffurfio â mesurau diogelu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth);
- cael mecanwaith i gyfeirio swyddogion at y panel craffu am adolygiad o'u cofnodion stopio a chwilio, gan gynnwys ethnigrwydd y bobl sy'n cael eu stopio a chwilio a chyfraddau darganfod chysylltiedig, a fideo a wisgir ar y corff;
- cael sbardun cwynion cymunedol, a allai arwain at atgyfeirio digwyddiad i'r IOPC;
- cynnwys aelodau wrth gytuno ar bolisïau a phrosesau, (a gynhwysir yn y cylch gorchwyl), codi materion sy'n peri pryder sy'n ymwneud â

chamymddwyn posibl gydag adrannau safonau proffesiynol ar gyfer asesiad gan yr Awdurdod Priodol;

- grymuso aelodau i feithrin cysylltiadau a pherthnasoedd ag uwch swyddogion yr heddlu fel eu bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar newid;
- caniatáu i aelodau i adolygu awdurdodiadau Adran 60 a'r defnydd dilynol o'r pŵer hwn mewn maes;
- rhoi cyfle i aelodau hysbysu a herio asesiadau effaith cydraddoldeb yr heddlu ac asesiadau effaith cymunedol; a
- caniatáu i aelodau i gyd-gynhyrchu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw batrymau neu faterion sy'n datblygu a chyhoeddi'r cynlluniau gweithredu hyn fel rhan o strategaeth ymgysylltu â gymuned yr heddlu.

Yn 2019, cyhoeddodd y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol bapur briffio ar sut i wella craffu cymunedol ar stopio a chwilio. Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o ble mae rhai heddluoedd a chymunedau wedi dod at eu gilydd yn llwyddiannus i hwyluso craffu a gwelliannau ystyrlon (Kalyan & Keeling, 2019).

Rydym yn croesawu ymrwymiad gan HMICFRS i archwilio i ba raddau y mae heddluoedd yn defnyddio deunydd fideo a wisgir ar y corff yn eu prosesau monitro mewnol a chraffu allanol mewn arolygiadau PEEL sydd i ddod (HMICFRS, 2021).

## 12.1 Argymhelliad 15: i'r NPCC

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i weithio gyda chyrff plismona lleol i weithredu egwyddorion APP y Coleg Plismona ar oruchwyliaeth gymunedol mewn perthynas â stopio a chwilio.**

## 12.2 Argymhelliad 16: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona

**Mae'r IOPC yn argymell bod yr NPCC a'r Coleg Plismona yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn gwella APP ar rannu gwybodaeth stopio a chwilio gyda grwpiau craffu a goruchwylio allanol, yn enwedig deunydd fideo a wisgir ar y corff, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder.**

## 12.3 Argymhelliad 17: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC yn cefnogi Prif Swyddogion i weithio gyda chyrff plismona lleol er mwyn gweithredu’r APP uwch ar rannu gwybodaeth gyda grwpiau craffu a goruchwylio allanol, er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder.**

## 12.4 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau ydych chi’n cymryd er mwyn gweithredu egwyddorion canllawiau’r Coleg Plismona ar oruchwyliaeth gymunedol mewn perthynas â stopio a chwilio?**

b) **Pa wybodaeth y mae eich heddlu yn ei rhannu ag aelodau o'ch grwpiau craffu neu oruchwylio stopio a chwilio?**

# 13. Trawma

Yn aml, stopio a chwilio yw'r cyfarfyddiad mwyaf gwrthdrawiadol y bydd unigolyn yn cael gyda'r heddlu. Pan na chynhelir chwiliad yn broffesiynol ac mewn ffordd sensitif, mae achwynwyr wedi dweud wrthym am yr effaith barhaol y gall ei chael, gan wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu herlid, eu bychanu a'u sarhau. A phan fo’r unigolyn sy’n cael ei stopio yn blentyn ifanc a allai wedyn brofi cyfnodau o stopio a chwilio dro ar ôl tro drwy gydol ei oes, gall yr effaith gronnus fod yn sylweddol.

**Achos enghreifftiol**

Rydym wedi derbyn cwyn gan gynrychiolwyr plentyn Du 17 oed sy’n honni ei fod wedi cael ei stopio a’i chwilio mwy na 60 o weithiau rhwng mis Chwefror 2018 a mis Mai 2020, er ei fod rhwng 14 ac 16 oed, cafodd ei stopio a’i chwilio fwy na 60 o weithiau, weithiau ar ddirwnodau dilynnol neu fwy nag unwaith y dydd. Mae’r cwyn yn honni bod y plentyn yn destun lefel llethol o graffu trwy gyfarfyddiadau stopio a chwilio negyddol di-rif ac arestiadau dro ar ôl tro sy’n arwain at ddim gweithredu pellach.

Mae’r llythyr cwyn yn disgrifio’r “trawma o gael ei or-blismona’n ymwthiol ac yn ddi-baid” a “gwahaniaethu yn ei erbyn” a’r “effaith aruthrol ar ei les, ei fywyd a’i ganfyddiad o blismona a’r system gyfiawnder” fel ei fod bellach yn ofni’r heddlu ac yn ceisio osgoi swyddogion heddlu pryd bynnag y bod modd i wneud hynny.

Mewn achosion eraill, rydym wedi gweld:

- Dyn Du 18 oed wedi stopio tra'n rhedeg adref o'r gampfa ar amheuaeth o fod â chanabis yn ei feddiant. Yn ystod y cyfarfyddiad, honnodd ei fod wedi cael ei gludo i'r llawr gan achosi i'w drowsus ddod i lawr, ac na wnaeth swyddogion eu tynnu i fyny wrth iddynt ei chwilio yn y stryd mewn cyffion llaw. Ni ffeindiwyd unrhyw gyffuriau.

- Plentyn Du 14 oed wedi stopio a'i roi mewn cyffion llaw wrth gerdded trwy fynwent gyda'i fam-gu. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth.

- plentyn Du 12 oed, a gafodd gast plastr ar un o'i ddwylo, wedi'i osod mewn cyffion llaw o fewn 20 eiliad i'r swyddog adael ei gerbyd heddlu, er ei fod yn cydymffurfio ac yn gwrtais o'r cychwyn a chyn cael cyfle i egluro ei fod yn gwneud swydd bach dros ei fam.

- Dyn Du 19 oed wedi'i stopio a'i chwilio mewn cysylltiad â byrgleriaeth, er nad oedd yn cyd-fynd yn llawn â'r disgrifiad o'r troseddwyr, wedi disgrifio teimlo'n agored i niwed, wedi'i fychanu, ac ei drin yn amharchus pan gafodd ei roi mewn cyffion llaw a honnodd swyddogion eu bod wedi ceisio ei orfodi i mewn i gar heddlu. Gan gredu bod swyddogion wedi gor-ddweud ei ymateb i gyfiawnhau eu defnydd o rym, dywedodd tad y dyn, "*Ni fyddai unrhyw berson diniwed mewn sefyllfa o'r fath yn aros yn dawel ac yn hunanfodlon*".

Ym mhob un o'r achosion hyn, dylid bod wedi rhagweld effaith y cyfarfyddiad ar yr unigolyn a daeth ein hymchwiliadau a'n hadolygiadau i'r casgliad y gellid bod wedi gwneud mwy i osgoi neu gyfyngu ar y trawma hwn, hyd yn oed os oedd modd cyfiawnhau'r stopio a chwilio ei hun.

Siaradodd tystion yn ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref i'r *adroddiad Macpherson: Twenty Years On* am eu profiadau o fyw a'r effaith niweidiol y mae stopio a chwilio yn cael ar unigolion a chymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig eraill (Tyst A, B, C, D, E, F, G, H, I, J, K, L, M ac N, 2019).

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol ar gyfer eu sesiwn friffio ar stopio a chwilio dynion ifanc o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall yn rhoi darlun cymhellol o ofn, trallod, a diffyg ymddiriedaeth (Keeling, 2017). Ac mae eu huwch-gwyn ar y niwed a achosir gan stopio a chwilio 'heb amheuaeth' yn cyfeirio at effaith stopio a chwilio yn barhaol ac yn drawmatig, yn enwedig pan gaiff ei ddefnyddio ar blant ac oedolion ifanc (Ali & Champion, 2021).

Mae'r effaith niweidiol y gall stopio a chwilio gael pan na chaiff ei gynnal yn deg ac yn broffesiynol yn cael ei adleisio gan y rhanddeiliaid siaradom â nhw, sydd wedi dweud wrthym am:

- effaith gronnol, hirdymor y trawma unigol a chyfunol, a brofir gan genedlaethau lluosog o pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig eraill;

- y difrod a achosir gan stopio a chwilio trawmatig yn ystod plentyndod a’r effaith ar ymdeimlad plentyn o ddiogelwch, sefydlogrwydd a bondio;
- y niwed i ymddiriedaeth a hyder pan fydd heddluoedd yn methu â chydnabod gwahaniaeth hiliol a hiliaeth sefydliadol;
- sut mae unigolion a chymunedau’n teimlo nad ydynt yn cael eu hamddiffyn gan yr heddlu ac o ganlyniad yn chwilio am ffyrdd o hunanamddiffyn, megis trwy gario cyllyll, a all arwain at bobl o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu tynnu'n anghymesur i'r system cyfiawnder troseddol; a
- niwed anwrthdroadwy i ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu a’r amharodrwydd canlyniadol i ymgysylltu’n gadarnhaol â’r heddlu a'r gyfraith.

Dylai ystyriaeth o’r niwed a achosir gan stopio a chwilio trawmatig fod yn dylanwadu ar y gwaith o ddylunio a darparu deddfwriaeth, polisi, arferion a thactegau plismona, hyfforddiant, ac ymgysylltu â’r gymuned ac osgoi parhad trawma o’r fath yn y dyfodol.

## 13.1 Argymhelliad 18: i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Coleg Plismona a’r Swyddfa Gartref

**Mae’r IOPC yn argymell bod yr NPCC, y Coleg Plismona a’r Swyddfa Gartref yn archwilio ymarferoldeb comisiynu ymchwil i’r trawma a achosir yn bennaf i bobl o gefndir Du, Asiaidd neu cefndir leiafrifoedd ethnig arall, gan gynnwys plant a phobl ifanc, drwy ddefnyddio stopio a chwilio.**

## 13.2 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa gamau y mae eich heddlu yn eu cymryd i sicrhau bod swyddogion o bob rheng yn eich heddlu yn cymryd agwedd sy’n seiliedig ar drawma i stopio a chwilio?**

b) **Sut mae arweinwyr yn eich heddlu yn sicrhau bod penderfyniadau strategol am bolisi ac ymarfer yn ystyried y posibiliad ar gyfer achosi trawma?**

# 14. Cyd-destun hanesyddol

Rydym yn deall gan rai rhanddeiliaid plismona ei fod yn bosib nad oes gan rai swyddogion heddlu, gan gynnwys recriwtiaid diweddar a swyddogion mwy profiadol, ddigon o ddealltwriaeth o’r cyd-destun lleol a chenedlaethol y maent yn gweithredu ynddo.

Tra bod cwricwlwm stopio a chwilio y Coleg Plismona yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol mewn hanes yn ymwneud â stopio a chwilio,[6] ble mae diffyg gwybodaeth am y trawma hanesyddol a ddioddefir gan rai cymunedau lleol, gall hyn arwain at ddiffyg sensitifrwydd a dealltwriaeth gan rhai swyddogion heddlu.

Mae deall y materion hanesyddol y mae rhai cymunedau wedi'u profi yn hanfodol os yw swyddogion am blismona'r cymunedau hynny mewn ffordd sy'n sensitif ac yn deg a chynnal ymddiriedaeth a hyder mewn plismona. Gallai hefyd wella profiad swyddogion eu hunain os ydynt yn gallu mynd i mewn i sefyllfaoedd gyda gwell dealltwriaeth o'r gwrthwynebiad y gallent ei wynebu a'r rhesymau dros hyn.

**Achos enghreifftiol**

Cafodd plentyn Du yn ei arddegau ei stopio gan swyddogion heddlu mewn ardal ganol dinas sydd yn hanesyddol â hyder isel yn yr heddlu. Pwrpas tasg y swyddogion oedd magu hyder a chasglu gwybodaeth mewn ymateb i ymosodiadau treisgar a ddigwyddodd yn yr ardal.

Dywedodd swyddogion eu bod yn amau bod y plentyn wedi cymryd rhan yn gwerthu cyffuriau. Ar sail yr amheuaeth hon, aeth un swyddog at y plentyn a dweud wrtho i stopio, ond ni esboniodd pam yr oedd am i'r plentyn stopio. Yna rhedodd y plentyn i ffwrdd o'r swyddog.

Defnyddiodd y swyddog rym, gan gynnwys chwistrell analluogi, i gadw'r plentyn i'w chwilio am arfau er mai'r amheuaeth wreiddiol oedd bod y plentyn wedi bod yn rhan o werthu cyffuriau. Doedd dim llawer o gyfathrebu cyn defnyddio grym. Denodd y cyfarfyddiad dyrfa a oedd yn flin am ymddygiad swyddogion yr heddlu.

Mewn achos arall, yn ystod stopio a chwilio dyn Du mewn canol tref sy'n llawn pobl â chefndir amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, clywodd swyddogion wylwyr yn gweiddi sylwadau yn cymharu cyfarfyddiad dyn Du a fu farw yn yr un dref tra yn nalfa'r heddlu. Fel rhan o ganlyniad yr achos hwn, fe wnaethom argymell bod y swyddogion dan sylw yn myfyrio ar effaith y digwyddiad ar y dyn dan sylw ac ar y gymuned ehangach.

## 14.1 Cwestiynau i Brif Swyddogion

a) **Pa hyfforddiant neu wybodaeth a ddarperir i'ch swyddogion ar yr eiliadau arloesol yn hanes plismona pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a chefndir lleiafrifoedd ethnig eraill, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau**

[6] Brixton Riots (1981), The repealing of Section 4 of the Vagrancy Act 1824 (a elwir yn gyfraith 'sus', Tottenham riots (1985), Adroddiad ar Ymchwiliad Stephen Lawrence (1999), Ymosodiad terfysgol 9/11, Ymosodiad terfysgol 7/7, terfysgoedd Llundain (2011)

**lleol o arwyddocâd, fel eu bod yn deall y digwyddiadau a allai fod wedi arwain at diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu?**

b) **Pa dystiolaeth sydd gennych fod swyddogion, o bob rheng, yn ystyried effaith digwyddiadau'r gorffennol cyn penderfynu defnyddio stopio a chwilio fel tacteg?**

# 15. Geirda

ACC Steve Barry, 2017. *Chief Constables Council, 12-13 July 2017; S163 Traffic Stops – Update Paper, pp. 54-56.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan:

Ali, A. & Champion, N., 2021. *More harm than good: A super-complaint on the harms caused by 'suspicion-less' stop and searches and inadequate scrutiny of stop and search powers (a Criminal Justice Alliance publication).* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.criminaljusticealliance.org/wp-content/uploads/CJA-super-complaint-into-section-60-and-scrutiny-of-stop-and-search_FINAL.pdf

Bradford, B., 2015. Assessing the impact of stop and search powers on individuals and communities. Yn: R. Delsol & M. Shiner, golygiad. *Stop and Search.* Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Bradford, B., 2017. *Stop and search and police legitimacy.* Abingdon: Routledge.

Coleg Plismona a NPCC, 2020 ymlaen. *Police plan of action on inclusion and race.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.college.police.uk/support-forces/diversity-and-inclusion/action-plan
[Cyrchwyd 2022].

Coleg Plismona, 2014. *Code of Ethics.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.college.police.uk/ethics/code-of-ethics

Coleg Plismona, n.d. *Authorised professional practice - professional.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.app.college.police.uk/app-content/stop-and-search/professional/

Coleg Plismona, n.d. *Authorised professional practice - professional.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.app.college.police.uk/app-content/stop-and-search/professional/

Coleg Plismona, n.d. *Authorised professional practice - professional.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.app.college.police.uk/app-content/stop-and-search/professional/
[Cyrchwyd 2022].

Comisiwn ar wahaniaethau hil ac ethnig, 2021. *The report of the Commission on race and ethnic disparities.* [ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/publications/the-report-of-the-commission-on-race-and-ethnic-disparities

Dame Elish Angiolini DBE QC, 2017. *Independent report:deaths and serious incidents in police custody.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/publications/deaths-and-serious-incidents-in-police-custody

HMICFRS, 2015. *Stop and search powers 2: are the police using them effectively and fairly?.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/stop-and-search-powers-2-are-the-police-using-them-effectively-and-fairly/

HMICFRS, 2017. *PEEL: police legitimacy 2017.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/peel-police-legitimacy-2017/

HMICFRS, 2018. *PEEL: Police effectiveness 2017 a national overview.*[Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/police-effectiveness-2017/

HMICFRS, 2021. *Disproportionate use of police powers A spotlight on stop and search and the use of force.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/disproportionate-use-of-police-powers-a-spotlight-on-stop-and-search-and-the-use-of-force/

Swyddfa Gartref, 2015. *PACE Code A 2015.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/publications/pace-code-a-2015

Swyddfa Gartref, 2021. *Police powers and procedures: stop and search and arrests, England and Wales, year ending 31 March 2021.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/statistics/police-powers-and-procedures-stop-and-search-and-arrests-england-and-wales-year-ending-31-march-2021/police-powers-and-procedures-stop-and-search-and-arrests-england-and-wales-year-ending-31-march-2021
[Cyrchwyd 2022].

Swyddfa Gartref, 2021. *Police use of force statistics.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/statistics/police-use-of-force-statistics-england-and-wales-april-2020-to-march-2021

Jackson, J. et al., 2012. Why do people comply with the law? Legitimacy and the influence of legal institutions. *British Journal of Criminology ,* Cyfrol 52, tt. 1051-1071.

Kalyan, K. K. & Keeling, P., 2019. *Stop and scrutinise: how to improve community scrutiny of stop and search, Criminal Justice Alliance briefing.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.criminaljusticealliance.org/wp-content/uploads/CJA-Stop-and-Scrutinise-2019.pdf

Keeling, P., 2017. *No respect: young BAME men, the police and stop and search, Criminal Justice Alliance briefing.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://criminaljusticealliance.org/wp-content/uploads/No-Respect-290617.pdf

Open Society Foundations, 2019. *Written evidence to the Home Affairs Select Committee Inquiry, written submission from Nick Glynn.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan:
http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/written/103527.pdf

Pearson, G. & Rowe, M., 2020. *Police Street Powers and Criminal Justice: regulation and discretion in a time of change.* Oxford: Hart Publishing.

Sekhon, N. J., 2011. Redistributive Policing. *Journal of Criminal Law and Criminology,* 101(4), t. 1171.

Shiner, M., Delsol, R., Carre, Z. & Eastwood, N., 2018. *The Colour of Injustice: 'Race', drugs and law enforcement in England and Wales.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.release.org.uk/publications/ColourOfInjustice

Søgaard, T. & Rowe, M., 2020. Playing the Man, not the Ball': Targeting Organised Criminals, Intelligence and the Problems with Pulling Levers. *Policing and Society: an international journal of research and policy,* 30(2), tt. 120-135.

StopWatch and Liberty, 2017. *Driving while Black.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.stop-watch.org/what-we-do/research/driving-while-black/

Y Gwir Anrh. David Lammy AS, 2017). *Lammy Review.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan: https://www.gov.uk/government/organisations/lammy-review

Tystion A, B, C, D, E, F, G, H, I, J, K, L, M ac N, 2019. *Home Affairs Committee, oral evidence: the MacPherson report:twenty years on.* [Ar-lein]
Ar gael ar wefan:
http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/the-macpherson-report-twenty-years-on/oral/103515.pdf

# 16. Atodiad 1

| Llu | Ymchwiliadau annibynnol | Apeliadau | Adolygiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Avon a Gwlad yr Haf | 2021/149396 | | | 1 |
| Beds | 2018/112181 | | | 1 |
| Swydd Caergrawnt | 2020/137568 | | 2020/138560 | 2 |
| Manceinion Fwyaf | 2020/140629 | | | 1 |
| Glannau Mersi | | | 2020/144343 | 1 |
| Gwasanaeth Heddlu Metropolitan | 2020/143279<br>2020/138132<br>2020/135679<br>2019/118695<br>2018/101076<br>2019/128328<br>2018/109983/2018/112898<br>2018/111561<br>2020/136229<br>2018/110243<br>2020/138211<br>2020/138142 | 2020/134614 | 2021/148343<br>2020/130673<br>2020/144039<br>2020/146973<br>2020/143742<br>2020/146973<br>2021/152336<br>2020/138237<br>2020/147114<br>2020/137442 | 23 |
| Northumbria | | | 2020/133890 | 1 |
| De Cymru | 2018/108355 | | | 1 |
| De Swydd Efrog | | 2019/124486 | | 1 |
| Suffolk | 2020/138165 | | | 1 |
| Surrey | | 2019/115643 | | 1 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 2020/135146<br>2020/135394<br>2020/135677 | | | 3 |
| Cyfanswm | 21 | 3 | 13 | 37 |

# 17. Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid plismona a'r rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â phlismona a helpodd i ddatblygu'r argymhellion hyn, gan gynnwys:

Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Y Coleg Plismona

Y Swyddfa Gartref

Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n arwain ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Cymdeithas Genedlaethol Plismona Du

Dr Geoff Pearson, Prifysgol Manceinion

Dr Mike Rowe, Prifysgol Lerpwl

Dr Michael Shiner, Ysgol Economeg Llundain

Dr Julian Hargreaves, Sefydliad Woolf, Caergrawnt

Angela Herbert, IOTC Coaching Solutions

Montell Neufville, Cadeirydd Panel Craffu Cymunedol Swydd Bedford

Panel Ieuenctid yr IOPC

Aelodau o grwpiau cyfeirio cymunedol yr IOPC

Aelodau o grwpiau craffu annibynnol a chymunedol lleol, paneli, a grwpiau cynghori annibynnol

Wedi'i gyhoeddi ar 20 Ebrill 2022

© IOPC 2022

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
Ebost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE